tafod elái

www.tafelai.com

Gorffennaf 2005 | Pris 60c | Rhif 199

GWOBRAU ADDYSGU 2005

Athrawes y flwyddyn

Meinir Rees

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Meinir Rees, Meisgyn, a enillodd y categori Anghenion Arbennig. Fe'i gwobrwywyd yn y seremoni arbennig am ei chyfraniad anhygoel i'r maes anghenion arbennig.

Mae Meinir wedi bod yn Ysgol Plasmawr ers iddi agor ym 1998 ac wedi gweithio'n ddiwyd er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael gofal arbennig. Bydd yn mynd ymlaen i gystadlu yng Nghystadleuaeth Prydain ym mis Medi. Pob lwc i iddi!

Un o'r rhai a enillodd anrhydedd i'w hunan ac arian i'w hysgol yn y seremoni wobrwyo oedd Eiry Rochford, Pentyrch. Llongyfarchwn Eiry yn wresog am ennill clod a chydnabyddiaeth haeddiannol am ei gwaith fel athrawes Gymraeg yn Ysgol Coed y Lan, Pontypridd.

Garth Olwg yn dawnsio drwy'r cwm

Ar ddydd Sadwrn 25 Mehefin bu plant Clwb Dawnsio Gwerin Ysgol Garth Olwg yn cymryd rhan yng ngŵyl ddawnsio `Dawnsio Drwy'r Cwm' yng Nghaerffili.

Teithiodd 30 o blant yr ysgol i dref y caws i fwynhau dawnsio ar y strydoedd, gorymdaith drwy'r dref a hwyl a sbri wrth ddawnsio yn y castell gyda 24 o ysgolion eraill. Roedd Caerffili'n fôr o liw a'r plant i gyd wedi mwynhau pob munud o gyd-ddawnsio.

Diolch yn fawr i'r rhieni a gynorthwyodd yn ystod y dydd, ac i Mrs Widgery a Miss Griffiths am hyfforddi'r plant.

Cynhaliwyd seremoni Gwobrau Addysgu, Cymru, 2005 yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, dydd Iau 23 Mehefin.

Eiry Rochford

Sony'n cau

Daeth y newyddion fod 650 yn mynd i golli eu swyddi gyda cau ffatri Sony ym Mhenybont yn ergyd fawr i'r ardal. Mae nifer o drigolion Taf Elái yn gweithio yn ffatrioedd Sony ym Mhenybont a Phencoed ac fe fydd llawer ohonynt yn ddi-waith yn fuan.

Mae'r ffatri ym Mhenybont yn cynhyrchu setiau teledu ond erbyn hyn mae'r ffasiwn wedi newid ac mae sgrîn fflat yn llawer mwy poblogaidd.

Agorwyd ffatri cyntaf Sony ym Mhenybont yn 1973 ac yn ei anterth roedd 4000 yn gweithio i'r cwmni yn Ne Cymru. Erbyn hyn mae'r nifer wedi gostwng yn sylweddol ac ar ôl y toriadau yma bydd dim ond 300 yn gweithio i Sony yn y ffatri ym Mhencoed.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 1 Medi 2005
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
7 Awst 2005

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad
Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816

GWRAIG GWEINIDOG A DYNES LOLIPOP

Mae gan Bethan Ellis Owen, sy'n chwarae rhan Ffion Morgan yn Pobol y Cwm, un peth yn gyffredin gyda'i chymeriad – mae'r ddwy yn wragedd i weinidogion.

Ond mae gan yr actores 28 oed, sy'n byw gyda'i gŵr, Y Parch Gareth Rowlands a'u dau o blant ym Mhentre'r Eglwys, Pontypridd, alluoedd tra gwahanol i Ffion.

Mae'n anodd dychmygu Ffion yn dynwared cymeriadau rhyfedd y gyfres sgetsus Lolipop fel mae Bethan yn ei wneud wrthi iddi bortreadu'r cyflwynydd newyddion garw ei thafod Siân Meirion a chyflwynydd y rhaglen *candid camera* waethaf erioed, *Troeon Trwstan*. Ond mae'r actores amryddawn yn gyfforddus yn chwarae cymeriadau digri neu ddifri.

"Rwy'n mwynhau chwarae darnau doniol a chymeriadau difrifol, llawn emosiwn fel Ffion gymaint â'i gilydd," medd Bethan. "Mae'r her o chwarae Ffion yn wahanol iawn i chwarae cymeriadau rhyfedd Lolipop. Wedi dweud hynny, dwi'n amau bod gan Ffion lot o hiwmor yn cuddio o dan yr wyneb. Mae hi wedi cael amser caled ers cyrraedd Cwmderi, ond falle daw'r hiwmor i'r amlwg ryw ben."

Ar hyn o bryd, mae'n amser dyrys i Ffion a'i gŵr Owen (yr actor Ioan Evans) yn y sebon poblogaidd, wrth i Britt gytuno i fod yn fam *surrogate* i'w plentyn. Mae hyn yn codi pob math o gwestiynau moesol i weinidog capel Bethania, Cwmderi, ond gyda Ffion newydd gam-esgor yr efeilliaid y mae'n eu cario ar ôl ei thriniaeth IVF, maen nhw'n fodlon ystyried unrhyw opsiwn.

"Mae cael plant yn rhywbeth y mae rhywun yn ei gymryd yn ganiataol rywsut. O fynd dan groen stori Owen a Ffion mae'n gwneud i mi werthfawrogi fy ngenod hyd yn oed yn fwy a sylweddoli pa mor lwcus ydw i," meddai Bethan, wrth sôn am eu dwy ferch, Begw Non, sy'n ddwy a hanner, ac Efa Grug sy'n flwydd.

Ychwanega Bethan, "Mae'n anodd i mi ddychmygu be' mae Ffion yn mynd trwyddo. Mae'r holl broses o IVF yn gallu rhoi straen ofnadwy ar berthynas ac fel mae Ffion wedi profi, does dim sicrwydd o lwyddiant yn y diwedd."

Mae bywyd Bethan, a fagwyd ym Montnewydd, Caernarfon ac yng Nghreigiau ger Caerdydd, fel gwraig gweinidog yn gryn dipyn mwy dedwydd nag un Ffion.

Cyfarfu â'i gŵr, Y Parchedig Gareth Rowlands, gweinidog gyda'r Annibynwyr yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth, yn ystod ei gyfarfod sefydlu. "Ro'n i'n digwydd bod adra' o'r coleg am y penwythnos, felly es i hefo'n rhieni i'r cyfarfod. Ro'n i'n ei ffansio fo ac mi wnes i ddechrau' mynd i'r capel yn amlach wedyn!"

Ar ôl iddynt ddechrau caru, bu ffrindiau Bethan yn tynnu ei choes y byddai'n landio yn 'cwcio sgons a phice bach a threfnu *bring and buy* sêls i achosion da'. Mae hi ei hun yn cyfaddef nad oedd hi erioed wedi meddwl y byddai'n priodi gweinidog, ond mae bellach i'w weld yn beth naturiol.

"Yn wahanol i Ffion, mi fydda i'n mynd i gefnogi'r gŵr yn ei wasanaethau," eglura. "Ond rwyf hefyd yn canolbwyntio ar fy ngwaith ar Pobol y Cwm a rhwng hynny a gofalu am y ddwy fach, dwi'n reit brysur! Yn wahanol i'n Nain, a oedd hefyd yn wraig i weinidog, mae llawer iawn o'r gwragedd y dyddiau yma yn gweithio hefyd."

Pobol y Cwm. BBC Cymru
Llun-Gwener, 8.00pm ar S4C
Lolipop
Nos Wener, 10.30pm, S4C
Cynhyrchiad Boomerang ar gyfer S4C

Côr Ieuenctid
Ydych chi'n mwynhau canu a chymdeithasu?
Yn 16-25oed?
Â diddordeb mewn ymuno â chôr ieuenctid?
Os ydych chi wedi ateb "YDW"
Peidiwch ag oedi,
cysylltwch â
Mari: 01685 877183

www.cwlwm.com
Gwybodaeth am holl weithgareddau Cymraeg yr ardal.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Marian Wynne

MERCHED Y WAWR
Nos Fercher, 8 Mehefin aeth criw o Ferched y Wawr ar daith gerdded i ardal Llanbedr y Fro. Ymunodd dwy o ffrindiau Elenid o Ffrainc â ni gan orfodi rhai ohonom i ymbalfalu am ambell air o Ffrangeg ar y ffordd! Ar ôl y cerdded cafwyd pryd o fwyd a chwmnïaeth ddifyr ar ddiwedd noson hyfryd. Diolch i Jen Macdonald am drefnu. 'Roedd yn ddiweddglo dymunol iawn i flwyddyn lwyddiannus o dan lywyddiaeth Gill Griffiths. Diolch Gill a phob hwyl i Elenid Jones a'r pwyllgor newydd y tymor nesaf.

HELFA DRYSOR
CLWB Y DWRLYN
Nos Wener,17 Mehefin mentrodd criw o tua 50 mewn 14 car ar yr Helfa Drysor blynyddol. Fe'n harweiniwyd heibio i Gastell Coch, a Chaerffili, yna drwy Abertridwr a Senghennydd ac ymlaen i Dreharris cyn troi 'nôl am y King's Arms ym Mhentyrch am wledd - a'r dyfarniad wrth gwrs!

Cafwyd noson ddiddorol o drafod a chwerthin – ac ambell ddadl. Llongyfarchiadau i Ann a Rhodri Jones a Haulwen a Dewi Hughes ar ennill, a phob lwc i Bethan ac Iwan Griffiths a'r plant wrth baratoi am ornest y flwyddyn nesaf.

Diolch i Margaret ac Ifan Roberts, Judith a Ken Evans,(o DreCENnydd!) a Maldwyn Pate am drefnu noson lwyddiannus.

CROESO I WYRES NEWYDD
Llongyfarchwn Ros Evans ar ddod yn Famgu. Ganwyd Olivia Isabella allan yn Zurich i Natasha a Hywel ac mae Mamgu wrth ei bodd. Mae Hywel yn gyfreithiwr gyda chwmni Man Investments. Dyma'r cwmni sydd yn noddi Gwobr Man Booker i awduron. Dymunwn yn dda i'r teulu bach allan yn y Swistir.

DYMUNIADAU DA
Danfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at Ceri Hughes sydd yn yr ysbyty yn Llantrisant ar hyn o bryd ar ôl derbyn triniaeth i'w phenglin. Dymunwn adferiad buan iddi.



Pwll Broga
Bu plant Dosbarth 5 yn astudio'r bywyd ym mhwll broga Creigiau. Cafodd pawb hwyl yn ceisio dal ychydig o'r creaduriaid. Fe welsant fwydod gwaed, nymff gwas y neidr, gwas y neidr ei hun, ceffylau y dŵr, malwod y dŵr, wyau malwod y dŵr ac wrth gwrs hwyaid. Ni ddaeth y dosbarth â'r creaduriaid a ddaliwyd yn ôl i'r ysgol ond eu gadael yn rhydd unwaith eto.

Lluniau
Cafodd holl blant yr ysgol dynnu eu lluniau fesul dosbarth, timau a chlybiau. Roedd yr haul yn gwenu er dydw i ddim yn siŵr am y plant oherwydd roeddem yn cael anhawster cadw ein llygaid ar agor. Erbyn diwedd y prynhawn roedd hi'n sbecian bwrw ond llwyddwyd i dynnu lluniau pawb cyn iddi ddechrau bwrw'n drwm.

Diwrnod o wersi ym Mhlasmawr
Ddydd Iau y deunawfed o Fehefin aeth plant Blwyddyn 6 i Blasmawr i gael diwrnod o wersi. Roedd y plant wedi eu rhannu'n ddau grŵp. Roedd un grŵp wedi cael gwersi gwyddoniaeth, daearyddiaeth a Chymraeg tra'r oedd yr ail grŵp wedi cael gwersi technoleg, technoleg gwybodaeth a hanes. Daethom at ein gilydd i gael gwers ddrama cyn diwedd y dydd. Roedd e'n ddiwrnod gwahanol oherwydd roedd rhaid i symud at y gwersi gwahanol. Mae pawb yn ddiolchgar i'r athrawon ym Mhlasmawr. Diolch i Mrs James am fynd â ni.

CAU CAPEL
Trist oedd gweld arwydd ar hysbysfwrdd Capel Horeb bod y gwasanaeth olaf i'w gynnal yno nos Sul, 26 Mehefin.

SWYDD NEWYDD
Llongyfarchiadau i Lowri Glyn ar ei llwyddiant yn yr arholiadau a phob dymuniad da wrth iddi ddechrau ar ei gwaith fel meddyg yn Ysbyty'r Waun ym mis Awst.

GORSEDD Y BEIRDD
Llongyfarchiadau i Penri Williams, Pantbach, ar ei wahodd i'w Urddo yng Ngwisg Werdd yr Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri.

Tesco Express
Ddydd Gwener fe dderbyniodd yr ysgol 14 449 tocyn cyfrifiadur o Tesco Express. Pobl heb gysylltiad â'r ysgol oedd y rhain oedd yn casglu tocynnau. Diolch i bawb a roddodd tocynnau yn y bocs a diolch o waelod calon i Tesco Express.

Diwrnod o gerddoriaeth ym Mhlasmawr
Ddydd Iau y trydydd ar hugain o Fehefin fe aeth Blwyddyn Chwech i ysgol Gyfun Plasmawr am ddiwrnod o gerddoriaeth. Roedd yr ysgolion wedi cael eu rhannu yn ddau grŵp, sef, cerddorfa a chôr. Ar ôl yr holl ymarfer daeth y côr a'r gerddorfa ynghyd i berfformio o flaen y rhieni a'r athrawon. Chwaraeodd y gerddorfa ddau ddarn a chanodd y côr dair cân ac roedd disgyblion Plasmawr yn helpu hefyd. Roedd y dydd yn hwyl ond yn flinedig.

P.C.Gwynne
Daeth P.C. Gwynne i ymweld â'r Adran Fabanod i siarad am droseddau, pethau drwg a rheolau. Gwelson nhw luniau o bobl yn troseddu ac wedyn aethon nhw mewn i grwpiau a sgwrsio am y llun a'r drosedd. Daeth i siarad â Dosbarth 4 am ddieithriaid a rhoi cyfle i'r plant actio. Roedd wedi ymweld â Blwyddyn Pedwar i sôn am sut mae cyffuriau ac alcohol yn ddrwg i chi. Hefyd fe ymwelodd hi â blwyddyn 5 â 6 i sôn am ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mabolgampau'r ysgol.
Ar waethaf rhagolygon y tywydd fe lwyddon i gynnal ein mabolgampau. Roedd y cystadlu yn frwd ond Collwyn enillodd eleni.

www.mentercaerdydd.org
029 20565658

Noson i'w chofio!
Cafwyd noson fythgofiadwy yn y Rioja Bar Nos Sadwrn, 4 Mehefin yng nghwmni Caryl Parry Jones, Huw Chiswell a'r band. Pefformiwyd set o glasuron Caryl a Chiz ac uchafbwynt y noson oedd y ddeuawd boblogaidd o'r ffilm *Ibiza! Ibiza!* Yn dilyn llwyddiant y noson a gyda phob tocyn wedi ei werthu y gobaith nawr yw cynnal nosweithiau tebyg ym Mar Rioja!

Cwis Cymraeg
Fe fydd cwis Cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal nos Sul, 24 Gorffennaf yn y Mochyn Du am 8yh. £1 y person. Ni fydd cwis yn cael ei gynnal yn ystod mis Awst

Cynlluniau gofal haf Menter Caerdydd
Fe fydd y Cynlluniau yn cael eu cynnal mewn dwy ganolfan yn ystod gwyliau'r haf - Ysgol Treganna ac Ysgol y Berllan Deg. Fe fydd y cynlluniau yn rhedeg am bedwar wythnos o 25 Gorffennaf i 19 Awst. Mae'n bosib y bydd y cynlluniau yn brysur iawn, felly'r cyntaf i'r felin…. Am ffurflen gofrestru, cysylltwch â Rachael Evans ar (029) 206 56 58 neu
rachaelevans@mentercaerdydd.org

Grant
Hoffai Menter Caerdydd ddiolch yn fawr iawn i Cyngor Chwaraeon Cymru a'r Gist Cymunedol am grant o £715 tua at Glwb Pêl-rwyd Menywod y Fenter.

Cwrs Ffrangeg byr drwy gyfrwng y Gymraeg
Mae rhyw ddwsin yn cyfarfod yn Severn Rd bob nos Fercher ar gyfer Cwrs Ffrangeg Menter Caerdydd. Yn ystod y cwrs fe fyddan nhw'n cael blas o'r iaith a dysgu geirfa sy'n arbennig o addas ar gyfer gwyliau yn Ffrainc!

Huw Chiswell a Caryl Parry Jones yn y Rioja Bar

Grantiau

Hoffai Menter Caerdydd ddiolch i gronfa Loteri 'Arian i Bawb' am grant o £4,695 a dderbyniwyd tuag at sefydlu 'Sesiynnau Gwyliau Meithrin' i blant a rhieni (0 – 4 oed) yn ystod gwyliau'r Ysgol. Y bwriad fydd rhedeg 2 sesiwn yn ystod pob gwyliau ysgol fydd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i'r plant gan hefyd cyflogi artistiaid o'r tu allan i ddod i wneud sesiynnau Cymraeg gyda'r criw. Bydd y prosiect yn cychwyn yn ystod hanner tymor Hydref 2005.

Mae Menter Caerdydd hefyd wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn grant gan 'Lloyds TSB Foundation' o £4,821 tuag at Clwb 'Sbargo' Menter Caerdydd - Clwb Cymdeithasol i blant ag Anghenion Arbennig'. Bydd yr arian yn sicrhau cyllid i ni barhau â'r clwb sydd yn brysur drwy gydol y flwyddyn bob Nos Fercher yn ysgol Plasmawr. Mae'r Clwb yn cynnal gweithdai Cerddorol, Celf, Chwaraeon, Drama a thripiau cyson i'n haelodau sydd rhwng yr oedran o 8 – 16 oed.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Cymro bach newydd i'r Teras!
Ganwyd Thomas Dewi Roberts, a fydd yn cael ei alw'n Tom o ddydd i ddydd, ar y 13eg o Fehefin 2005. Ef yw mab Huw Roberts a Dr Jennifer Thomas o 19, Y Teras, Creigiau. Mae'n frawd i Gwenllian a Heledd, ac yn ŵyr i Mr a Mrs Thomas o Fynydd y Garreg yn Sir Gaerfyrddin, a Mary Roberts a'r diweddar Dewi Roberts, Plas ym Mhowys, Treuddyn, Sir y Fflint. Llongyfarchiadau bawb - a chroeso cynnes i Tom!

Graddedigion newydd
Llongyfarchiadau bawb a raddiodd yr haf yma – a phob dymuniad da i chi yn eich priod feysydd.
Enillodd Elin Haf radd dda yn y Gymraeg o Brifysgol Abertawe, a bydd yn cychwyn ar gwrs Ymarfer Dysgu cynradd yn UWIC ym mis Medi. Edrychwn ymlaen at fwy o fanylion am y gweddill yn y rhifyn nesa – dowch â'ch newyddion da os gwelwch yn dda!

Groesfaen
Llongyfarchiadau i Bethan Willis ar ei dyweddïad efo Ben Levine yn ddiweddar. Daw Ben yn enedigol o Gernyw ond bellach mae ef a Bethan wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Mae Ben yn gweithio gyda phlant awtistig yn y ddinas. Pob hapusrwydd i'r ddau i'r dyfodol.

Ti a Fi Creigiau
Un sesiwn Ti a Fi sydd yn Creigiau erbyn hyn sef ar fore Gwener 10-11.30. Mae'r sesiwn ar brynhawn Llun yn awr wedi gorffen gan fod tywydd braf yn denu pobl allan yn lle i Neuadd y Sgowtiaid.
Dewch yn llu ar fore Gwener am goffi , te a sgwrs a chofiwch son wrth ffrindiau sydd am addysg Gymraeg i'w plant.

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Meima Morse

Genedigaeth
Llongyfarchiadau gwresog i Denise ac Emyr Adlam, Clos Caradog, Pentre'r Eglwys ar enedigaeth eu merch fach, Aine Catherine, yn ddiweddar. Newyddion hyfryd i mamgu a thadcu hefyd sy'n byw'n agos. Dymuniadau gorau i'r teulu cyfan.

Diwedd Maes yr Eglwys
Newyddion trist iawn i lawer ydy sylweddoli fod Canolfan Iaith Maes yr Eglwys ar fin cau ac na fydd tymor newydd yn agor ym mis Medi. Bydd y cyfan yn cael ei chwalu er mwyn codi tai. Bu Maes yr Eglwys yn ganolfan lle meistrolodd llawer yr iaith Gymraeg a bu'n gyfrwng atgofion melys a llawn hwyl.

Grŵp Dawns
Wedi sawl sgwrs yn trafod prinder cerddoriaeth dawns yn y Gymraeg, fe benderfynodd Geraint ac Aled Pickard ffurfio Clinigol yn Chwefror 2002. Cynhyrchu cerddoriaeth dawns electronig oedd bwriad y band, gan ddefnyddio dylanwadau o synth-pop yr 80au - swn newydd i'r sîn Gymraeg. I ddod â'r weledigaeth yn fyw, roeddent am ddefnyddio gwestai gwahanol i ganu ar y traciau, er mwyn creu sŵn a naws unigryw ar bob cân. Wedi sawl blwyddyn o gynhyrchu demos, fe ofynnwyd i'r band wneud sesiwn i raglen C2 Radio Cymru. Fe lansiwyd y band ar noson ddarlledu'r sesiwn, sef nos Iau y 7fed o Ebrill eleni. Mae'r cantorion gwadd cyntaf i ymuno â'r prosiect yn dod o'r ardal hefyd. Mae Gemma Rhys Jones o Lantrisant yn canu ar y gân "Golau" a Bethan Mason, sy'n canu "Tân", yn dod o Benybont. Mae'r pedwar, felly, yn gyn-ddisgyblion o Ysgol Gyfun Llanhari. Os ydych am wybod mwy, mae gan y band wefan gwahanol iawn, sef www.clinigol.com Mae pwy bynnag a wrandawodd ar berfformiadau Clinigol ar lwyfan Radio Cymru yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd yn dyst fod gweledigaeth yn agosau at gael ei gwireddu. Rhagorol a phob dymuniad da fechgyn.

Cylchoedd Ti a Fi:
Hoffai Mrs. Siân Davies, trefnydd newydd Cylchoedd Ti a Fi yn yr ardal hon, ddiolch yn fawr i'r mamau a'u plant am gefnogi'r cylchoedd Ti a Fi eleni. Dymunir pob hwyl i'r plant sy'n cyrraedd dwy a hanner oed wrth iddynt ymadael a dechrau Cylch Meithrin ym mis Medi. Mae'r cylchoedd Ti a Fi wedi bod yn boblogaidd iawn yn yr ardal hon ac mewn ymateb i'r galw agorwyd Ti a Fi newydd yn Efail Isaf yn ddiweddar. Yna, bydd Mudiad Ysgolion Meithrin yn agor Cylch Meithrin yn Efail Isaf ym Medi/Hydref 2005. Os ydych yn cysidro rhoi addysg Gymraeg i'ch plentyn ac am fwy o fanylion cysylltwch â swyddfa'r Mudiad Ysgolion Meithrin ar 02920 739200. Ar y llaw arall, mae croeso mawr ichi i alw mewn i unrhywun o'r cylchoedd am sgwrs anffurfiol a gweld sut mae plant ifanc iawn yn dechrau dysgu mewn awyrgylch ymlaciol o ganu a chwarae. Os ydych am fynd gam ymhellach ac â diddordeb i fod yn arweinydd yn un o'r cylchoedd Ti a Fi lleol cysylltwch â Siân Davies neu Swyddfa'r Cylch Meithrin. Dyma'r grwpiau Ti a Fi lleol,-

Capel Salem, Tonteg – bob dydd Mawrth, 10 – 12 y bore.
Festri Capel Castellau, Beddau,- bore dydd Mercher 10-12y.b.
Festri Capel y Tabernacl, Efail Isaf – dydd Iau, 10-12y.b.

Bydd y grwpiau Ti a Fi yn cau dros wyliau'r haf; o'r wythnos yn gorffen 22ain o Orffennaf a byddant yn ail agor yn ystod yr wythnos yn dechrau y 5ed o Fedi.

Clinigol

Capel Salem:
Y Gymdeithas: Cafwyd noson arbennig o ddifyr ac addysgiadol i gloi'r tymor. Jill o Gôr Merched y Garth fu yn ein diddori a bu'n eithriadol o effeithiol yn gwneud hynny. Yn ogystal â hanes taith ddiddorol y Côr i Batagonia clywyd cerddoriaeth Meibion y Gaiman. Diolch yn fawr iawn am rannu'ch profiadau â ni Jill. Byddwn yn ail gydio'n yr awenau ar Fedi 9fed.

Diolch am stiwardio

Gair yw hwn i ddiolch i bob un ohonoch wirfoddolodd i stiwardio yn ystod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd eleni.

Oherwydd y gofynion gwahanol i'r arfer yng Nghanolfan y Mileniwm, ac yn y sinemâu a'r meysydd parcio, bu galw am warchod lleoliadau a phyrth pell ac agos o fore bach hyd yr hwyr. Llwyddwyd i wneud hynny drwy i chi roi o'ch amser, gan aberthu mynychu'r ŵyl neu gwmni'ch teulu am oriau ar y tro.

Mawr yw ein diolch i chi. Hyderwn i chi fwynhau'r cyfle i ddod i adnabod rhai o gyfrin fannau'r ganolfan newydd, i gwrdd â'r miloedd o ymwelwyr a'r ŵyl ac i gyfarwyddo a'r ardal o gwmpas Bae Caerdydd.

Yn ogystal â gwirfoddolwyr o ardal Caerdydd a'r cylchoedd cyfagos, teithiodd rhai ohonoch o ardaloedd Ogwr, Gwent, Nedd, Tawe a thu hwnt - ac un o dre Coventry! Erbyn yr adeg pan fydd yr ŵyl yn dychwelyd i'r Bae, estynnwn groeso i ddarpar stiwardiaid eraill o 'bob cwr o Gymru i fanteisio ar y cyfle i weld lle mor rhyfeddol yw'r warin o goridorau sydd yng nghefn y llwyfan. Rhowch e yn eich dyddiadur nawr!

Irfon Bennett
Trefnydd

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

GRADDIO
Llongyfarchiadau i Anna Lee Price, Ash Street sydd wedi cael gradd dosbarth cyntaf mewn Cymraeg fel ail iaith. Mae Anna Lee yn haeddu canmoliaeth uchel am yr ymdrech fawr mae hi wedi ei wneud i ddysgu'r iaith. Bydd Anna nawr yn gallu dysgu Cymraeg fel ail iaith mewn Ysgol Uwchradd neu Ysgol Gynradd. Bydd y seremoni Graddio ar Gorffennaf 8ed. Llongyfarchiadau mawr.

CYLCH MEITHRIN
Mae Riki Priday wedi ei benodi fel cynorthwyydd i Beth Brodie yn y Cylch Meithrin. Llongyfarchiadau i Riki a gobeithio y bydd yn hapus gyda'r plant. Mae'n dda gweld cyn-ddisgyblion Ysgol Gymraeg Tonyrefail a Llanhari yn gweithio yn y Cylch Meithrin ac yn trosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf.

DAWNSIO
Aeth grŵp o blant sy'n mynychu'r Dosbarthiadau Dawnsio yn y Ganolfan Gymdeithasol yn Evanstown i ddawnsio i Ŵyl Ddawnsio yn Neuadd y Miwni Pontypridd a chawsant ganmoliaeth uchel iawn am eu dawnsio. Llongyfarchiadau i'r hyfforddwraig Paige Domachowski.
Aelodau'r tîm oedd Jasmin Cook, May Williams, Clair Patterson, Sharon Domachowski, Gemma Davies, Stephen Hardwidge, Kelsey Belmont a Rachel Davies Gobeithio y byddant yn dal i gystadlu yn y dyfodol.

CYMDEITHAS GYMUNEDOL GILFACH GOCH
Mae gan Gymdeithas Gymunedol Gilfach Goch Wefan Newydd gallwch ymweld ar GGCA.Co.UK.
Mae'r Gymdeithas am i bobl wybod y bydd cyfle i bobl Gilfach ail Gylchu Sbwriel o fis Tachwedd ymlaen pan fydd y cyfleusterau yn Rh.C.T yn ehangu. Mae sawl un wedi bod yn flin gan nad oedd cyfleusterau ar gael i drigolion Gilfach felly edrychwn ymlaen at fis Tachwedd.
Mae Mudiad yr Henoed yn pryderu am y bobl sy'n cael eu twyllo gan ladron sy'n esgus fod yn rhywun arall. Mae sawl lladrad o'r fath wedi digwydd yma yn y cwm felly mae nhw wedi gofyn i Gwmni Drama Gilfach Goch i gynhyrchu Drama er mwyn rhybuddio pobl. Bydd Dave Lawrence yn cynhyrchu' r ddrama a bydd yn mynd ar daith yn Rh . C . T . Edrychwn ymlaen at weld y perfformiad.
Mae un o aelodau staff y Ganolfan Gymunedol sef Richard Walters yn gadael i gymryd swydd gyda 'Groundforce Cyngor Castell Nedd Port Talbot'. Mae Richard wedi bod yn gweithio yn y Gilfach am y pum mlynedd diwethaf . Dymunwn yn dda iddo a gobeithio y bydd yn hapus yn ei swydd newydd.

Rhywbeth wedi dal eich sylw?

Mae Cynllun Casglu'r Principality, modd arloesol o archebu gwaith celf yn ddi-log sydd nawr yn ei drydedd mlynedd ar hugain, wedi cael ei lansio ar ei newydd wedd fel rhan o ymarfer ail-frandio gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Dangoswyd deunydd hyrwyddo a marchnata newydd Cynllun Casglu'r Principality am y tro cyntaf yn Oriel Washington, Penarth ar ddydd Mawrth 28fed Mehefin.

Mae Cynllun Casglu'r Principality yn gweithredu mewn marchnad hollol wahanol y dyddiau hyn i'r farchnad oedd yn bodoli pan lansiwyd cynllun archebu di-log gan Gyngor Celfyddydau Cymru y tro cyntaf. Dim ond yn oriel Cyngor Celfyddydau Cymru oedd y cynllun ar gael yn gyntaf ond wedyn, ym 1983, cynigwyd y Cynllun Casglu dros Gymru gyfan. Erbyn hyn, mae'n bosib i bron i unrhyw un sydd eisiau prynu gwaith celf wneud cais am gredyd drwy nifer o wahanol gyflenwyr ar y stryd fawr neu ar y we.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Jayne Rees

Priodas Arian
Gwell hwyr na hwyrach yw'r dymuniadau i Dafydd Idris a Beryl Edwards, Y Comin a ddathlodd 25 mlynedd o fywyd priodasol ychydig fisoedd yn ôl. Llongyfarchiadau a gobeithio i chi fwynhau y gwyliau yn yr Iwerddon.

Ymddeoliad
Ar ddiwedd tymor yr Haf fe fydd Jean Williams, Graigwen yn gorffen dysgu yn Ysgol Gymraeg Tonyrefail. Mae Jean wedi treulio blynyddoedd yn cyfrannu at fywyd yr ysgol ond yn edrych ymlaen nawr at ei hymddeoliad. Dymuniadau gorau a mwynhewch!

Priodas
Yn ystod mis Awst fe fydd Kevin Griffiths a Clare Kenny, Gelliwastad Grove yn priodi yng Nghaerleon- lle wnaethon nhw gwrdd tra yn y coleg. Bydd y wledd a pharti'r nos yn y Celtic Manor. Pob lwc i chi!

Newidiadau ym Mharc Prospect!
Pob lwc i Dave Francis yn ei swydd newydd yn y Ganolfan Byd Gwaith yn y Porth. Yn ddiweddar ymddeolodd Dave ar ôl cyfnod hir iawn yn dysgu yn y sector uwchradd.

Mae Siwan Francis wedi gwneud cynnydd arbennig ar ôl llawdriniaeth ar ei chalon ym Mis Mai. Mae hi'n edrych ymlaen at ddechrau swydd newydd yn Ysgol y Castell yng Nghaerffili ym Mis Medi. Llongyfarchiadau!

Cyhyrau Siapus??
Mae rhai o ddarllenwyr y Tafod wedi ymuno â dosbarth Pilates newydd ym Mhontypridd. Felly os ydych am gryfhau cyhyrau'r corff ar gyfer y bicini'r Haf neu jîns y Gaeaf dewch i'r gwersi bob nos Lun ac Iau yn y Miwni o 7.00 tan 8.00.

Cynhaeaf ym mis Ebrill?

Ar ôl y daith dros y paith a chroeso arbennig mewn asado ar lan afon Camwy roedd rhaid i Gôr Merched y Garth ddechrau canolbwyntio eto ar roi perfformiadau mewn cyfres o gyngherddau yn ardal y Gaiman a Phorth Madryn.

Roedd hi'n teimlo fel dydd Sul er mai dydd Sadwrn oedd hi ac ar ôl y bwyd ardderchog ar fferm Tair Poplar roedd rhaid mynd i wasanaeth cynhaeaf yng nghapel Bethel y Gaiman. Croesawyd y côr gan Eluned Gonzales a dywedodd fod casgliad y cwrdd yn mynd at y Feibl Gymdeithas - ddim un Cymru ond un Argentina. Roedd y gwasanaeth wedi ei baratoi a'i chyflwyno gan Elenid Jones ac aelodau eraill y côr a chafwyd gwledd o ganu ac o ddiolch am y cynhaeaf arbennig sydd wedi dod o'r gwaith caled yn dyfrhau dyffryn Camwy ac o'r cynhesrwydd a'r croeso sydd rhwng trigolion Patagonia a Chymru.

Yn ôl yr arfer roedd gwledd o fwyd yn ein disgwyl ar ôl y cwrdd a chyfle i sgwrsio â thrigolion yr ardal.

Mae'r Gaiman wedi bod yn enwog am ei gapeli ond mae hefyd yn enwog am ei dafarn. Mae'r Davarn Las yn ganolbwynt i fywyd nos y dref ac roedd rhaid i'r côr dalu ymweliad a mwynhau noson o ganu anffurfiol.

Taith i'r arfordir oedd yn ein disgwyl fore Sul i weld pengwin yn Punta Tombo. Ac roedd yr olygfa yn syfrdanol – dim clwstwr bach ond haid o dros can mil o bengwin yn paratoi i symud i ardal gynhesach ar ôl magu y genhedlaeth nesaf.

Catrin Morris yn cyflwyno Côr Merched y Garth

Yn ôl i Drelew a chynnal gwasanaeth y cynhaeaf arall yng Nghapel Tabernacl Trelew. Cael croeso arbennig yn y capel a the a chacennau i ddilyn. Roedd yn braf cael cwrdd â phobl oedd yn parhau i gadw'r traddodiadau Cymraeg.

Wedyn cyngerdd yn Amgueddfa arbennig Trelew. Cyflwynwyd y côr gan Catrin Morris sydd wedi symud i fyw o Lantrisant i Drelew . Roedd hi'n falch i

Capel Bethel, Y Gaiman

gael cyhoeddi mai Merched y Garth yw côr ei mam, ac er nad oedd ei mam yn gallu bod ar y daith roedd yn falch iawn i gael croesawu ffrindiau ei mam i Drelew. Noson wefreiddiol arall o ganu a'r tro yma cafwyd unawd gan Andres Roberts, ein tywysydd, yn canu Calon Lân yn Sbaeneg.

Y rheswm mae'r Amgueddfa yn Nhrelew yn arbennig yw am fod rhai o ddinosoriaid hynaf a mwyaf y byd yn cael eu cadw yno. Yn ardal y Gaiman o gwmpas Bryngwyn cloddiwyd olion y dinosoriaid ac mae arbenigwyr o bob rhan o'r byd yn ymweld â'r ardal oherwydd ei bwysigrwydd. Trelew yw'r dref fwyaf yn yr ardal. Sefydlwyd y dref o gwmpas yr orsaf rheilffordd ac fe'i henwyd ar ôl Lewis Jones un o arweinwyr y Gwladfawyr cyntaf.

Yr Amgueddfa Dinosoriaid

Doedd dim amser i oedi a bore Llun roedd rhaid codi i grwydro dyffryn Camwy. Cael ymweld ag Amgueddfa y Gaiman yn yr hen orsaf a gweld y meysydd ffrwythlon yn y dyffryn. Ymlaen wedyn i Dolavon a chael cinio mewn hen felin flawd sydd wedi cael ei hadfer. Ar y ffordd yn ôl aeth rhai i weld mynwent y Gaiman. Yno roedd cerrig beddi Cymraeg nesaf at rai Sbaeneg rhai yn coffau y gwladfawyr cyntaf ddaeth drosodd ar y Mimosa a nifer fawr ohonynt yn cofnodi hanes mewnfudwyr o ardal Aberdâr a'r cymoedd. Roedd yn deimlad rhyfedd gweld cerrig beddi Cymraeg mewn gwlad estron. Ac i goroni'r ymweliad gwnaethom ddarganfod bedd perthynas un o aelodau'r côr.

Bedd un o'r Gwladfawyr cyntaf

Roedd Coleg Cerdd y Gaiman wedi gwahodd y côr i roi cyngerdd ar y cyd ar y Nos Lun. Cafwyd eitemau gan gôr Merched y Gaiman o dan arweinyddiaeth Edith Macdonald a'r cyfansoddwr, Hector Macdonald, yn cyfeilio. Ac ymunodd corau cymysg y Gaiman â Merched y Garth a'i gwŷr i ganu Hafan Gobaith. Yn dilyn y gyngerdd fe'n gwahoddwyd i'r coleg am fwyd a chyd-ganu rhai o'r hoff ganeuon a chyfres o ganeuon i'r plant oedd wedi ymuno yn yr hwyl.

Meinir Heulyn yn canu telyn newydd yr ysgol gerdd

Olwyn ddŵr yn dyfrhau y tir yn Nolavon

Mynd nôl i'r cychwyn wnaethom ar ran olaf y daith drwy Batagonia – cewch glywed yr hanes y mis nesaf.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Ymweliadau
Ar yr unfed ar bymtheg o Fehefin, fe aeth Dosbarthiadau 3,4 a 7 ar ymweliad â Phorthcawl. Edrychodd Dosbarthiadau 3 a 4 ar fywyd glan y môr tra y bu Dosbarth 7 yn brysur yn gwneud gwaith maes daearyddiaeth. Cafodd disgyblion Blwyddyn 4 gyfle i chwarae tennis ar y nawfed o Fehefin, a bu Blwyddyn 6 ar ymweliad ag archfarchnad Tesco. Pob lwc i dîm cwis llyfrau Blwyddyn 4 fydd yn cystadlu yn y rownd genedlaethol yn Aberystwyth ddiwedd mis Mehefin. Diolch i Mrs Hulse a Ms Carys Llewelyn am hyfforddi'r plant.

Dawns fawreddog
Daeth bron i gant o rieni, staff a chyn-rieni at ei gilydd i ddathlu agoriad yr adeilad newydd, mewn dawns fawreddog yng ngwesty Dewi Sant, Caerdydd ar nos Wener yr ail ar bymtheg o Fehefin. Cafwyd noson ardderchog o wledda a dawnsio mewn steil!

Cadw'n heini
Diolch yn fawr i Mark o gwmni "Fit 4 Fun" am drefnu diwrnod noddedig o adloniant aerobics a sgiliau pêl-droed i holl blant yr ysgol, yn ddiweddar. Cafodd y plant (ac ambell i aelod o staff!) ddiwrnod wrth eu bodd.

Cyngherddau diwedd blwyddyn
Ar ddydd Gwener y pedwerydd ar hugain o Fehefin, cynhaliwyd cyngerdd Adran y Babanod a'r Uned dan 5. Y themâu oedd dydd a nos, teithio, lan y môr a phobl sy'n ein helpu. Cynhelir cyngerdd Blynyddoedd 3,4 a 5 ar yr wythfed o Orffennaf a phrynhawn gwobrwyo i ddisgyblion Blwyddyn 6 ar yr ugeinfed.

Profiadau theatrig
Bydd plant CA 2 yn cael y cyfle i weld dwy ddrama cyn diwedd y tymor, sef "Stori Branwen" a "Henry and his Six Wives".

Agoriad swyddogol
Fe agorir yr adeilad newydd yn swyddogol ar y pymthegfed o Orffennaf, gan y Cynghorydd Mike Forey a Mr Gareth Edwards MBE. Bydd cyfraniadau cerddorol gan ddisgyblion CA2 yn ystod y seremoni, a chynhelir parti i'r plant yn ystod y prynhawn.

Hybu llythrennedd a rhifedd
Ar y trydydd ar ddeg o Fehefin, dechreuodd cwrs pedair sesiwn i rieni a phlant dan 5 – i hybu llythrennedd a rhifedd. Trefnwyd y cwrs gan Jenny Thomas o "Addysg i'r Teulu". Bu'r ymateb yn dda, gyda dwsin o rieni yn mwynhau adolygu eu Cymraeg a chynhyrchu llyfrau i'w plant.

Croeso nôl a hwyl fawr!
Croeso nôl i Liam Demmer o Ddosbarth 3 ar ôl cyfnod hir adref wedi iddo gael damwain ddifrifol yn ystod gwyliau'r Pasg. A hwyl fawr i Joel Stead o Ddosbarth 1 fydd yn ein gadael yn fuan, gan ei fod yn symud i ardal Pontypridd.

Diolch
Diolch yn fawr i Miss Carys Williams, myfyrwraig o Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd am ei chyfraniad helaeth i'r ysgol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Bu'n cyfeilio mewn cyngherddau yn ogystal â'r Eisteddfod yn y Bae. Pob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Pont y Brenin, ger Abertawe.
Neges oddi wrth Miss Carys Williams: Diolch i bawb yn YGGG Llantrisant am brofiadau ymarfer dysgu ardderchog – yn enwedig i Mr O'Neil a Mrs Davies.

Cwrs cerdd
Bu Carys ac Aaron Fowler, Bethannie Hayes, Sophie Nicholls ac Emma Gully ar gwrs offerynnau llinynnol yn Ogwr yn ddiweddar. Da iawn chi a phob hwyl gyda'r chwarae.

Ymwelwyr
Daeth dau o geffylau'r heddlu i ymweld â ni'n ddiweddar a chafodd holl blant yr ysgol gyfle i holi cwestiynau ynglŷn â nhw. Bu PC Jones yn siarad â disgyblion Dosbarthiadau 1 a 2 am ei gwaith a bydd y dynion tân hefyd yn galw draw, cyn diwedd y tymor.

CYFLWYNO'R BRIODFERCH

Ar drothwy ei phriodas â'r chwaraewr rygbi rhyngwladol Simon Easterby, mae Sarra Elgan hefyd yn paratoi i gyflwyno cyfres newydd o'r cylchgrawn cerddorol **Bandit**, ochr yn ochr â'r ddau Huw - Stephens ac Evans.

Gyda Simon, fodd bynnag, yn rhan o garfan y Llewod ar eu taith i Seland Newydd, gadawyd paratoadau'r briodas i Sarra.

"Fe drefnodd Simon fod y gweision a'r gweinyddwyr i gyd yn cael eu mesur ar gyfer eu siwtiau ac roedd e a dad yng ngofal archebu'r gwin a'r siampên. Ar wahân i hynny, y cyfan sydd ar ôl iddo'i wneud yw troi lan ar y diwrnod!" chwardda'r gyflwynwraig 26 mlwydd oed o Gastell-nedd. "Mae mam a finnau wedi bod wrthi'n brysur yn trefnu popeth ac mae wedi bod yn lot o hwyl. "

Drwy gymryd rhan yn y daith eleni, mae Simon yn dilyn ôl-troed tad Sarra, cyn-asgellwr Cymru Elgan Rees a fu ar daith gyda'r Llewod i Seland Newydd yn 1977 a De Affrica yn 1980.

"Mae'n gyd-ddigwyddiad neis a dim ond nawr, ers i Simon fod mas 'da'r Llewod rwy'n llawn werthfawrogi'r hyn a gyflawnodd dad, gan fy mod i'n fychan iawn ar y pryd," ychwanega.

Cynhelir y brecwast priodas yn Neuadd Llangoed yn Nyffryn Gwy ddiwedd y mis hwn, gydag aelodau o garfanau rygbi'r Sgarlets, Iwerddon a Chymru yn ogystal â selebs y sgrîn ymysg y gwesteion.

Ond er bod Sarra yn gyndyn i ddatgelu mwy am y briodas, mae'n barod iawn i drafod ei chyfraniad i'r gyfres newydd o **Bandit** fydd yn dechrau nos Iau, 14 Gorffennaf.

"Rwy'n rîli mwynhau cyflwyno ar **Bandit** yn enwedig 'da'r ddau Huw. Mae Huw Stephens mor *laid-back* ac ma' fe'n oracl cerddorol yn ei hunan. Mae Huw Evans wedyn, mor angerddol am bopeth ac yn gwneud i ni gyd chwerthin.

Yn arbennig ar gyfer misoedd yr haf mae fformat newydd i'r gyfres hon o **Bandit** gyda'r ddau Huw a Sarra yn crwydro o gwmpas gwahanol ddigwyddiadau, gigs a gwyliau yng Nghymru a thu hwnt.

Yn y rhaglen gyntaf (nos Iau, 14 Gorffennaf) canolbwyntir ar gerddoriaeth ddawns yng Nghymru, gan ddilyn DJs Cymraeg sy'n chwarae yn Ibiza, Barcelona ac *Escape in the Park* yn Abertawe yng nghwmni Huw Stephens a Huw Evans. Yn ystod y gyfres bydd Sarra'n cyflwyno o gig fawr y Sioe Frenhinol lle y disgwylir i 5500 o bobl ifanc heidio i wrando ar berfformiadau gan Elin Fflur, Sibrydion a Rasputin. Cynhelir y gig yn syth wedi noson iâr Sarra sy'n gosod dipyn o her i'r gyflwynwraig brofiadol!

Daw dwy raglen arbennig hefyd o Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cylch ac yn ddiweddarach yn y gyfres fe gaiff Huw Evans gyfle i ddilyn Ioan Gruffudd am 24 awr wrth iddo hyrwyddo ei ffilm newydd *The Fantastic Four*.

Bandit. Cynhyrchiad Boomerang
Nos Iau, 14 Gorffennaf, 9.30pm, S4C

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

CARCHAR I FOMIWR FFUG

Cafwyd dyn lleol yn euog o wneud galwadau ffug am fomiau yn y maes awyr ble oedd yn gweithio.

Cyflawnodd Matthew Murphy-Kitto, 23 oed o Waelod-y-garth, y troseddau pan oedd yn gweithio shift nos ym Maes Awyr Bryste rhwng Gorffennaf 20 a 21, 2003. Yn Llys y Goron Bryste cafodd 18 mis o garchar.

"Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn oedd dial," meddai'r erlynydd Allan Fuller. Bedwar diwrnod cyn y galwadau ffug roedd Murphy-Kitto wedi clywed nad oedd y rheolwyr yn fodlon ar ei waith ac na fyddai'n cael dyrchafiad.

"Wrth gwrs, mae rhywun yn derbyn beth oedd effeithiau'r troseddau, yr anhrefn a'r poen meddwl," meddai Michael Mather-Lees ar ran yr amddiffyn.

Clywodd y llys i Murphy-Kitto gael gorchymyn prawf yn 1999 ar ôl cael eiddo drwy dwyll. Yn 1998 cafodd rybudd oddi wrth ei gyflogwr ar ôl dwyn.

'DAL I GREDU'

Roedd y ddau â'r un enwau, y ddau'n chwyldroadwyr mewn meysydd gwahanol.

Cafodd Michael Davitt, sefydlydd Cynghrair y Tir, ei eni yn Straide, Iwerddon, ar Fawrth 25, 1846, ac ymladdai yn erbyn tirfeddianwyr gormesol.

Cafodd yr ail Michael Davitt ei eni yn Corc yn 1950 a bu farw ychydig o wythnosau'n ôl yn 55 oed. "Bydd colled fawr ar ei ôl gan taw fe oedd Bob Dylan yr iaith Wyddeleg," meddai Gweinidog Celfyddydau y Weriniaeth John O'Donoghue. "Roedd yn allweddol wrth droi'r iaith yn gyfrwng addas ar gyfer Iwerddon gyfoes."

Yn 1970 sefydlodd Michael y cylchgrawn barddoniaeth Innti anelai at "lais barddonol modern" ar gyfer cenhedlaeth newydd. Yn ei farddoniaeth ei hun roedd agweddau ar farddoniaeth Bît America o'r chwedegau, elfen o dristwch ac amharchusrwydd gwleidyddol.

Pan gafodd ei gyfrol The Oomph of Quicksilver ei chyhoeddi yn 2001 roedd ei eiriau yn berthnasol i'n sefyllfa ni:

"Yr hyn sy'n bwysig yw dal i gredu fod yr iaith Wyddeleg yn rym creadigol, egnïol pan mae'n cael ei gwthio i'r cyrion yng nghanol yr holl MacDonaldeiddio sy'n sgubo drwy ynys y seintiau a'r ysgolheigion."

TAFLU DŴR OER?

Cafodd dyn lleol ryddhad amodol am flwyddyn a dirwy o £25 yn Llys Ynadon Pontypridd.

Roedd Christopher Morgan, 21 oed o Hillside Park, wedi ei ddal yn gwneud dŵr yn iard Gorsaf Heddlu Pontypridd ac yn euog o feddu ar ganabis. Bu gorchymyn i ddinistrio'r cyffuriau.

YMATEB CYMYSG

Prynhawn Sadwrn braf ym Mehefin, ar ôl prysurdeb siopau mawr, dianc i Oriel Glynn Vivian yn Abertawe, i wylio arddangosfa wahanol.

Chi'n gyfarwydd â'r enw? Peter Finnemore, un o gynrychiolwyr Cymru yn y Biennale yn Fenis. Mae'r dyn gafodd ei eni ym Mhont-iets yn 1963 yn byw o hyd yng Nghwm Gwendraeth ond mae ei waith wedi ei arddangos yn yr Iseldiroedd, y Swisdir, yr Unol Daleithiau, Ffrainc a Chroatia.

"Yn ei ffotograffau a'i ffilmiau byr," meddai'r daflen "mae'n cyfosod rhyfel a natur ac yn creu anghytseinedd eironig." Pan ddarllenais i'r geiriau ro'n i'n moyn gwybod mwy.

Yn sicr, roedd elfen chwareus yn ei waith ond do'n i ddim yn siŵr a oedd yr arddangosfa yn fy hala i gwestiynu "hunaniaeth a'r unigolyn yn y byd mawr." Roedd sylwadau'r llyfyr ymwelwyr yn awgrymu nad oedd pawb yn gytûn. "Arwr," meddai Sarah Lees. "Yn llawn o ddelweddau cyfoethog a doniol. Mae Peter ymhell o flaen ei amser."

"Mae gen i broblem," meddai James o Chippenham. "Dwi ddim yn siŵr ai celfyddyd yw hon." Bydd rhaid i fi fynd yn ôl i'r oriel, i ailedrych a gwerthfawrogi'r llonydd.

GALW MAWR

Mae siop y Co-op yn Ffynnon Taf wedi gorfod archebu mwy o lagyr nag arfer yn ddiweddar.

Cafodd Daniel Clifford, 18 oed o Toghill Drive, ddirwy o £40 yn Llys Ynadon Pontypridd ar ôl dwyn 12 can o lagyr.

Wedyn cafodd David Watkins, 19 oed o West View, ddirwy o £30 yn yr un llys ar ôl dwyn chwe chan o lagyr.

AR NEWYDD WEDD

Llongyfarchiadau i blant Ysgol Gynradd Ffynnon Taf sy wedi bod yn plannu blodau y tu allan i neuadd y pentre.

Y plant oedd Lauren Forward, Ellysa Bryant, Amy Walker, Victoria Walsh, Lowri O'Connell, Molly Davies, Joshua Evans, Kallum Rossiter, a Phoebe Holcombe.

Diolch i'r brifathrawes Wendy Reynolds am eu harolygu a gofalwr y parc Dave Williams am ei help.

ADFERIAD LLWYR

Ry'n ni'n dymuno adferiad llwyr a buan i Enoch Smith neu Smudge o Dŷ Rhiw sy ddim wedi bod yn hwylus ers tipyn.

Torrodd ei glun yn ddiweddar. Dywedodd ei wraig Doris ei fod yn gwella ac y dylai pawb anfon cardiau at Ward Tri, Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant.

Dymuniadau gorau iddo.

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-garth, 10.30am. Gorffennaf 3: Y Gweinidog, Oedfa Gymun; Gorffennaf 10: Y Parchedig Hywel Richards; Gorffennaf 24: i'w gadarnhau; Gorffennaf 31: i'w gadarnhau.

CYLCH MEITHRIN Ffynnon Taf, 9.30-12, dydd Llun tan ddydd Gwener. Taliadau: £4.75 y sesiwn. Ti a Fi, 1.15-2.30 bob dydd Mawrth. Taliadau: £1.50 y sesiwn.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

Ysgol Gymraeg Garth Olwg

Ein Pennaeth
Mae ein pennaeth, Mr Elwyn Hughes yn yr ysbyty ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth. Mae pawb yn yr ysgol yn meddwl amdanoch ac yn dymuno'n dda i chi, Mr Hughes.

Dathlu Dydd Ewyllys Da
Ar Ddydd Ewyllys Da, Mai 20fed gwahoddwyd rhieni plant dosbarth Mrs. Davies (Blynyddoedd 3 + 4) i'r Gwasanaeth boreol.

Darllenwyd y neges mewn tair iaith gan rai o ddisgyblion Bl 6:- Cymraeg - Gareth Alderson, Saesneg - Lowri Jones ac Eidaleg Oliver Symonds. Roedd yn galonogol iawn i groesawu cynifer o rieni - tua 30 - llawer wedi galw ar eu ffordd i'r gwaith. Diolch am eich cefnogaeth. Yn y dyfodol bydd rhieni dosbarthiadau eraill yn derbyn gwahoddiad i ymuno â ni yn ein Gwasanaeth boreol.

Roedd neuadd Garth Olwg dan ei sang, ar brynhawn Gwener, Mai 20fed pan ddaeth rhieni C.A.1 i weld yr holl blant wedi gwisgo mewn gwisgoedd gweldydd y byd.

Yn ogystal â dangos eu gwisgoedd bu'r plant yn canu cân neu emyn yn ymwneud a Dydd Ewyllys Da.

Y dasg anoddaf oedd dewis gwisgoedd y 3 gorau ym mhob dosbarth ond daeth dwy arbenigwraig o'r Efail Isaf i feirniadu sef Mrs. Shelagh Griffiths, un o athrawon cyntaf yr ysgol a Mrs. Ann Rees sydd wedi cael cysylltiadau â'r ysgol o'r blynyddoedd cynnar.

Bu pob disgybl yn brysur yn paratoi anrheg i'w rhieni a gorffennwyd prynhawn hamddenol braf gyda lluniaeth ysgafn gan y Gym. Rh. ac Athrawon.

Diolch yn fawr i bawb a gynorthwyodd i sicrhau prynhawn llwyddiannus iawn.

Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau i Stephanie Jenkins B16 ar ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Piano yn yr Eisteddfod Sir.

Chwaraeon.
Llongyfarchiadau i Elise Rees fuodd yn rhedeg yng nghystadleuaeth traws gwlad yr Urdd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Wedi ennill y gystadleuaeth sirol, llwyddodd Elise i ddod fewn yn drydydd ar hugain - da iawn ti.

Ar y maes pêl - droed cafodd tîm bechgyn Garth Olwg ddwy gêm yn erbyn Llanilltud Faerdref yn ddiweddar. Collodd tîm B o 2 -1 ; ac mewn gem hynod gystadleuol 0 - 0 oedd y sgôr rhwng timau A y ddwy ysgol.

Etholiad Garth Olwg.
Bu disgyblion blynyddoedd pedwar a phump yn brysur yn y dosbarthiadau yn ddiweddar yn paratoi etholiad ysgol. Georgia Cooper oedd cynrychiolydd Plaid Cymru, Ben Jones y Ceidwadwyr, Hannah Hughes y Democratiaid Rhyddfrydol a Harriot Mather oedd cynrychiolydd y Blaid Lafur. Wedi areithio brwd o flaen gweddill yr adran iau, fe sicrhaodd Plaid Cymru ei sedd gyntaf yn etholiad Garth Olwg. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n ymwneud â'r ornest.

Darllen neges Dydd Ewyllys Da

Michael Owen,
Captem tîm rygbi Cymru

Capten Cymru
Ar ddydd Gwener 6ed o Fai daeth Capten Cymru, Michael Owen, i ymweld â phlant Garth Olwg. Cafodd pawb gyfle i holi Capten pencampwyr y chwe' gwlad ac i gael llofnod y Cawr o'r Beddau. Diwrnod bythgofiadwy i'r plant a'r athrawon.

Parti Ponty.
Bu Côr Ysgol Gymraeg Garth Olwg yn canu a dawnsio wrth berfformio'r gân 'Mabolgampau'. Ymunodd pawb yn y bwrlwm i sicrhau amser llwyddiannus iawn. Diolch yn fawr i Mr Robert Jones am ei gefnogaeth ac i'r athrawon a fu'n hyfforddi'r plant.

Taith i'r Fferm
Cafodd plant yr adran dan bump hwyl a sbri yn ymweld â fferm 'Little Friends' yn Nhrehafod eto eleni. Cawsant gyfle i weld llu o anifeiliaid y fferm ac i anwesu ambell i un hyd yn oed!

Cadw'n Heini
Ar ddydd Llun, Mehefin 13eg, roedd cyffro mawr yn yr ysgol pan ddaeth Marc Miller o "Fit 4 Fun" i arwain dosbarthiadau mewn amrywiaeth o weithgareddau i gadw'n iach ac yn heini.

⇒

Rhieni a phlant yn dathlu Dydd Neges Ewyllys Da

Merched y Wawr

Croesawyd llawer iawn o ffrindiau ac ymwelwyr i'r babell yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd 2005 ym Mae Caerdydd. Bu'r safle yn fwrlwm o weithwyr yn gweini te a choffi ac eraill yn sgwrsio a thrafod.

Thema y babell eleni oedd Cadw'n Iach/Bwyta'n Iach. Tra oedd pawb yn mwynhau'r eisteddfod, roedd tair aelod dewr a brwdfrydig o'r mudiad, Einir, Elsie a Meryl yn dechrau ar daith feicio noddedig i godi arian dros 'Diabetes Cymru' o Borthaethwy i Gaerdydd gydag aelodau eraill yn ymuno â hwy ar y daith. Un o'r merched hynny – a oedd yn cynrychioli'r rhanbarth de-ddwyrain – oedd Jen McDonald. Beiciodd Jen gydag Einir, Elsie a Meryl o Abertawe i Gaerdydd ac ar ddiwedd eu taith derbyniwyd hwy i'r Bae gan gyfarwyddwr yr Urdd, Efa Gruffydd Jones a llu o aelodau ac ymwelwyr.

I nodi'r achlysur fe wnaeth Llinos Roberts o Ddinbych faner yn arddangos y daith; cyflwynwyd hon i Efa a bydd y faner i'w gweld yng Nghanolfan yr Urdd yn y Bae.

Mae un gangen ar ddeg o Ferched y Wawr yn y rhanbarth – beth am ymuno â ni. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Brenda Jones (029) 2084 2946.

Blwyddyn 6 yn ymweld â'r Cynulliad.

Ar Ddydd Gwener, Mehefin 17eg, bu Blwyddyn 6 yn ymweld â'r Cynulliad yng Nghaerdydd. Cawson nhw ddiwrnod buddiol iawn yno.

Helfa Drysor lwyddiannus iawn

Cynhaliwyd Helfa Drysor gyda'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ar nos Wener, Mehefin 24ain. Wedi'r rhedeg a'r chwilio aeth pawb nol i'r Ganolfan Chwaraeon lle roedd bwffe ac adloniant.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Cylch Ti a Fi

Yn ddiweddar sefydlwyd Cylch Ti a Fi yn Festri'r Tabernacl. Mrs Siân Davies o Bentre'r Eglwys sydd yn arwain y gweithgareddau ac mae'r mamau a'r plant bach yn cyfarfod bob Dydd Iau am ddeg o'r gloch y bore tan ddeuddeg. Croeso cynnes i chi daro mewn i'r festri i gael sgwrs a chymdeithasu gyda'r plant bach a'r mamau.

Dymuniadau gorau

Dymunwn yn dda i Mrs Maralyn Watkins, Brynawel, Heol y Parc sydd yn treulio cyfnod yng Nghartref Garth Olwg ar hyn o bryd.

Croeso.

Estynnwn groeso cynnes i deulu arall o Gymry Cymraeg i'r pentref. Mae Robert a Bethan Emanuel wedi ymgartrefu yn Tŷ Gwyn, Heol y Parc. Brodor o Aberteifi yw Rob ac mae ganddo ei Gwmni o Gyfrifyddion Siartredig ym Mhentre-poeth ar gyrion Radur. Mae Bethan yn ddarlithydd yn Adran Adnoddau Dynol Coleg Prifysgol Morgannwg. Ar hyn o bryd mae Bethan adre ar gyfnod mamolaeth ac yn mwynhau ei hun gyda Ioan Wyn sydd yn bedwar mis oed.

Sgorio Cais i Gymru.

Ychydig fisoedd yn ôl cofnodais hanes Carys, merch Cliff ag Eifiona Hewitt, Penywaun a serennodd mewn gem rygbi yn Stadiwm y Mileniwm tra'n chwarae i Dîm Rygbi'r Bîb. Mae Carys wedi anfarwoli ei hun unwaith yn rhagor drwy gael ei dewis i chwarae i Dîm Rygbi Cymysg Cymru mewn Twrnament Rhyngwladol yng Nghaeredin. Fe sgoriodd Carys y cais a ddaeth â'r fuddugoliaeth i Dîm Cymru yn y gêm derfynol, a hynny yn erbyn Tîm Lloegr. Da iawn ti, Carys.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau gwresog i Paul a Siân Henry ar enedigaeth bachgen bach ar Fehefin 16eg. Mae Mam-gu, Ethin Henry, Nant-y-felin wedi dwlu ar ei hŵyr bach, Ioan William.

Y TABERNACL

Aelodau Newydd.

Yn yr Oedfa Gymun ddechrau Mis Mehefin derbyniwyd dau aelod newydd. Roedd yn braf cael croesawu Andy a Nia Parker o'r Groesfaen i'n plith. Brodor o Swydd Essex yw Andy a Nia yn hanu o Lansawel. Mae'r ddau wedi bod yn mynychu'r oedfaon ers tro ac mae'r efeilliaid Carwyn a Rhodri yn aelodau selog yn yr Ysgol Sul. Croeso cynnes i chi.

Gwibdaith yr Ysgol Sul

Bydd gwibdaith yr Ysgol Sul yn mynd i Folly Farm yn Sir Benfro ar Ddydd Sadwrn Medi 17fed. Cysylltwch â Sara Thomas ar 01443 202136 os ydych am ymuno a chriw bywiog yr Ysgol Sul ar y daith.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Gorffennaf a Mis Awst

Gorffennaf 3 Gwasanaeth Cymun o dan ofal Y Gweinidog. Gorffennaf 10 Mr Alan James, Llantrisant.
Gorffennaf 17 Sul y Cyfundeb yn Ysgol Gyfun Plasmawr, Caerdydd i ddechrau am 10.30 a.m.
Gorffennaf 24 Y Parchedig Gethin Rhys.
Gorffennaf 31. Ymuno â chynulleidfa Bethlehem, yng Ngwaelod y Garth am 10.30 y bore.
Awst 7. Gwasanaeth Cymun o dan ofal Y Gweinidog yn Nhabernacl, Efail Isaf am 10.45 y bore.
Awst 14. Y Parchedig Dafydd Edwards (yng Ngwaelod y Garth)
Awst 21 Oedfa yn Y Tabernacl Efail Isaf.
Awst 28 Y Parchedig Elwyn Jenkins, Llanbedr Pont Steffan.
(yng Ngwaelod y Garth)

MENTER IAITH

ar waith yn Rhondda Cynon Taf

01443 226386

www.menteriaith.org

DIOLCHIADAU PARTI PONTY

Hoffwn i ddiolch i bawb a wnaeth gynorthwyo gyda threfniadau Parti Ponty 2005. Yn bennaf oll; Huw Thomas Davies a wnaeth y mwyafrif mawr o'r gwaith trefnu cyn ac yn ystod yr ŵyl gyda chymorth ei ferch Beci a wnaeth wythnos o waith yn ôl ym mis Mai gan osod seiliau'r ŵyl lwyddiannus. Y mae Rhian James a Nicola Evans hefyd wedi gwneud cyfraniadau aruchel trwy drefnu'r ddwy noson yn Y Miwni i ni sef y Noson Lawen a'r Gig. Mae'r wefr o weld y tocynnau yn mynd un ar ôl y llall, y sylw yn y papurau lleol a delwedd Y Limo llawn sêr y byd pop yn ymweld ag ysgolion yr ardal yn atgofion gwerth chweil. Gweithiodd pob un aelod o staff - Lindsay Jones, Vicky Pugh, Rhian Powell, Helen John, Helen Davies, Mari Griffiths, Sali James ac Eleri Griffiths yn arbennig o galed i geisio creu'r fath ŵyl rydym am weld a haeddu yn ganolbwynt i adfywiad cymunedol Cymraeg cymoedd Rhondda Cynon Taf. Diolch hefyd i'r pwyllgorwyr am eu gwaith nhw wrth drefnu digwyddiad mor fawr - yn benodol Lisa Morris, Nerys Humphries, Eric Jones, Dawn ac Amy Williams - ond roedd pob un wedi cyfrannu yn eu ffordd eu hunain yn enwedig y dysgwyr sydd wrth wraidd y gwahanol gymdeithasau Cymraeg newydd o dan Cymunedau Yn Gyntaf.

O safbwynt mudiadau - diolch i'r Urdd unwaith eto, Mudiad Ysgolion Meithrin, Twf, CYD yn ogystal â'r ysgolion Cymraeg a Saesneg a wnaeth berfformio yn y parc. Gwn fod sawl athro wedi gweithio oriau ychwanegol i gael trefn ar y perfformiadau gwahanol ac rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr oherwydd taw dyna wraidd Parti Ponty fel gŵyl gymunedol. Diolch yn fawr iawn i'r Cymro am ddarparu atodiad gwych i ni unwaith eto eleni - ymddiheuriadau i bawb na chafodd amser i gyfrannu oherwydd yr amserlen dynn iawn iawn wrth baratoi'r gwaith.

Diolch yn fawr i'n harianwyr rheolaidd sef Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Rhondda Cynon Taf am eu cymorth unwaith eto eleni. Na, chawson ni ddim yr hyn roeddem wedi gofyn amdano. Na, chawsom ni ddim digon i dalu am yr ŵyl a ddarparwyd. Ymddengys y byddwn wedi colli £2,000 ar yr ŵyl eleni ac felly fe fydd Prifweithredwr y Fenter yn gwneud taith gerdded noddedig at ben Penyfan ar ddydd Sadwrn 6ed Awst er mwyn ceisio lleihau'r ddyled rhywfaint, tra'n mwynhau awyr iach y Bannau. Os hoffech chi gyfrannu cewch wneud trwy law unrhyw aelod o'r staff neu'r pwyllgor neu gysylltu â'n swyddfa ar 01443 226386 lle bydden nhw'n falch o dderbyn cyfraniad cerdyn credyd dros y ffon.

CRIW COCH CYNRADD YN CHWARAE TRWY'R HAF

Bydd ein cynlluniau chwarae ar agor bob dydd o'r gwyliau ysgol rhwng 25ain Gorffennaf a'r 2ail Medi yn Rhydfelen, Llanhari, Abercynon a Bronllwyn o 8.30am hyd at 5.30pm. Bydd disgownt i ail blentyn o fewn yr un teulu. Bydd tripiau gwahanol am brisiau rhesymol. Bydd cyfle i nofio gan bob cynllun. Bydd Castell Neidio yn Llanhari a Ffrâm Ddringo yn Abercynon. Bydd sesiynau drymio, chwaraeon, bwyd y byd, cymeriadau cartŵn gwahanol, celf a chrefft, gemau a llawer iawn mwy. Oes, mae eisiau i chi drefnu lle i'ch plentyn nawr a chewch wneud drwy dalu gyda cherdyn credyd ar 01443 226386 am bob un cynllun chwarae.

CLYBIAU CARCO YN PARATOI I AIL AGOR

Ydw, dwi yn sôn am ail agor cyn i ni gau am yr Haf ond credaf ei bod yn bwysig i rieni wybod bod gwasanaeth ar gael iddyn nhw ym mis Medi ac y mae'n bwysig iawn i ni baratoi nawr am weithgareddau mis Medi. Os hoffech chi fod yn gweithio mewn un o'r clybiau hyn - yn enwedig os ydych eisoes yn gweithio mewn ysgol lle mae Clwb Carco ac wedi llwyddo gyda Cache Lefel 3 neu NNEB neu gymhwyster tebyg - rhowch wybod i Helen Davies ar 01443 226386 neu Mari Griffiths ar 01685 977183. Mae newidiadau staff yr adeg yma bob blwyddyn ac rydym am sicrhau'r safon gorau o weithgarwch bob tro. Rydym am wella bob tro.

CICIO'R UWCHRADD TRWY HAF

Mae llawer o weithgareddau CIC eisoes wedi trefnu am yr Haf megis tripiau Oakwood ar 17/08/05, i weld sioe Blood Brothers yn Llundain ar 30/07/05 a hefyd 13/08/05 sy'n awgrymu bod cryn alw am y trefniadau hyn, Syrffio yn Gwyr ar 03/08/05 a Siopa ym Mryste - Cribbs Causeway ar 24/08/05. Disgwylir y bydd gweithdy cerddoriaeth gyfoes yn cael ei drefnu ac un trip mawr arall. Rhag ofn nad yw hyn yn ddigon bydd rhaglen lawn gan Yr Urdd a nifer o weithgareddau ar y cyd â Chyngor Rhondda Cynon Taf. Mae'r bartneriaeth yn dwyn ffrwyth go iawn erbyn hyn. Mae manylion llawn y tripiau ar gael ar 01685 882299 a chewch drefnu lle gan ddefnyddio eich cerdyn credyd ar y rhif ffôn hwnnw hefyd.

WYTHNOS I'R DYSGWYR GAEL LLEISIO EU BARN

Yn sgîl llwyddiant cyson pwyllgorau dysgwyr Aberdâr - o dan arweiniad Lynda Spilsbury a Llantrisant - o dan arweiniad Colin Williams y mae pwyllgor newydd yn datblygu yn y Rhondda fach ym Maerdy. Bydd cyfarfod y Rhondda am 10am ar 18/07/05, Aberdâr am 9.30am ar 19/07/05 a Llantrisant am 9.30am ar 22/07/05. Os hoffech chi ymuno yn un o'r grwpiau hyn y mae croeso i chi wneud trwy gysylltu â Rhian James ar 01685 877183

DATHLU'R ANTHEM A'R BONT

Ymddengys fod cryn drafod wedi bod o fewn siambr Cyngor Rhondda Cynon Taf ynglŷn â hyn. Dwi yn gobeithio y bydd dathliadau go iawn a dwi yn gobeithio y bydd pobl o bob plaid yn ymuno yn y dathliadau

hynny. Mae'r Fenter wedi dechrau yn barod gyda Chwis Plant o fewn ein clybiau a chynlluniau chwarae, a phaentio wynebau gyda logo'r bont "Ponty 2006" yn Parti Ponty. Ar 03/08/05 bydd rhyw dri deg o ddysgwyr o Brifysgol Cymru Caerdydd yn ymweld â'r Fenter ac Amgueddfa Pontypridd i ddysgu am yr hanes a gweld sut maen nhw'n dod ymlaen gyda'r cwis - Diolch yn fawr iawn i Eleri Griffiths am baratoi'r deunyddiau sydd ar gael ganddi ar 01792 460 906 sef rhif ffôn Menter Iaith Abertawe os ydych yn rhyfeddu at y rhif.

CERDDED Y MYNYDDOEDD
Mae sawl un wedi gofyn felly - do, mwynheais i yn fawr am ddysgu sut mae arwain pobl lan mynyddoedd Cymru yn ddiweddar. Bydd y profiad yn ddefnyddiol iawn wrth wneud taith gerdded noddedig ar 6ed Awst er mwyn ceisio lleddfu dyledion Parti Ponty - os oes modd i chi fy noddi gwnewch hynny trwy ffonio 01443 226386 gyda'ch cerdyn credyd. At y dyfodol rydym yn gobeithio y bydd modd i ni drefnu llawer iawn mwy o weithgareddau awyr agored o gwmpas Bannu Brycheiniog yn bennaf ond efallai hyd yn oed ymhellach i ffwrdd.

STEFFAN WEBB
PRIFWEITHREDWR
MENTER IAITH

Ysgol Heol y Celyn

Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau mawr i'r plant a gymerodd ran yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd yn ystod yr hanner tymor. Daeth y gan actol yn gyntaf, yr ymgom i ddysgwyr yn ail a chafodd Lucinda Childs drydydd yn adrodd i ddysgwyr rhwng 8-10. Er i nifer o eitemau gymeryd rhan dim ond yr uchod oedd yn fuddugol ond da iawn pawb am eu holl waith caled dros y misoedd diwethaf, athrawon a phlant!

Mae cyfle i'r plant a gymerodd ran yn eitemau'r Eisteddfod i berfformio eto yng Nghanolfan y Mileniwm ar Fehefin y trydydd ar hugain - eto cyfle gwerth chweil i berfformio yng nghanolfan pwysicaf Cymru.

Ymchwiliadau Gwyddonol
Bydd 17 o blant o flwyddyn 6 yn mynychu seremoni gwobrwyo dydd Iau Mehefin y l6eg ble byddant yn cael tystysgrifau am eu gwaith ar ymchwiliadau gwyddonol. Da iawn chi.

Pêl-rwyd
Cafodd tîm pêl-rwyd yr ysgol gem yn erbyn Hawthorn ond yn anffodus colli a wnaethant o 3-l, ond dim ots roedd yn gêm dda ferched!

Hanes arlunydd
Mae rhan fwyaf o'r dosbarthiadau yn yr ysgol wedi cael cyfle i ymweld â'r Amgueddfa ym Mhontypridd ble cawsant hanes arlunydd o Bontypridd sef Handel Evans gan storïwr proffesiynol, diddorol iawn oedd yr ymweliadau.

Croeso
Rhaid croesawu plant meithrin newydd a phlant derbyn yr adran Saesneg i'r ysgol am brynhawn i fwynhau gweithgareddau yn ein dosbarth agored newydd, yn ôl pob son roedd yn llwyddiant mawr.

Rheolau'r ffordd fawr
Mae cyfle i flwyddyn 6 ddysgu rheolau'r ffordd wrth seiclo yn yr ysgol hefyd -cyfle gwerth chweil.

Drama am wyddoniaeth
Daeth cwmni drama i'r ysgol i berfformio sioe yn ymwneud â gwahanol agweddau o wyddoniaeth ond yn benodol am olau. Roedd y sioe yn werth ei gweld gyda phawb wedi cael modd i fyw plant ac athrawon!

YSGOL GYFUN RHYDFELEN

Llongyfarchiadau
i Berwyn Pearce, Eleri Evans a Kate Griffiths ar eu llwyddiant yn y cynhyrchiad Popty yn y Coleg Cerdd a Drama dan nawdd BBC Cymru.

Cwrtycadno ar ei thraed
Braf iawn yw cael adrodd fod ein canolfan wledig ni eto yn rhan o fywyd yr ysgol. Mae cyfnod wedi bod o atgyweirio a gwella, y gwaith yn cael ei wneud gan griw anhygoel o rieni brwd a dawnus. Mae'r cyfleusterau i bawb wedi gwella, ac mae'r wlad a'r ardal, yn eu holl ogoniant, diolch byth, yn aros yr un peth. Dros yr ail benwythnos ym mis Mai aeth criw o ddisgyblion y chweched a'u hathrawon, Mr Evans, Mrs Bryan-Jones a Miss Rees i dreulio sesiynau astudio yno. Yr Adran Hanes oedd wrthi a chawsant amser gwych iawn. Dros y trydydd penwythnos mae Mr Evans yn mynd yno eto, y tro hwn gyda myfyrwyr gwaith maes Bioleg a Chemeg. Jyst y peth cyn arholiadau Safon Uwch!

Gyda llaw mae'r ganolfan ar gael i'w llogi i gyfeillion yr ysgol. Cysylltwch â Mr Llŷr Evans yn yr ysgol a'r 01443 486818.

Rhyddfrydwyr Democrataidd yn cipio sedd yn Rhondda Cynon Taf
Wel, o leiaf, dyna be ddigwyddodd yn y ffug-etholiad a gafodd ei gynnal yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ar Fai 4, sef diwrnod cyn yr etholiad cyffredinol. Dyma'r tro cyntaf ers sawl blwyddyn i'r ysgol fynd ati gyda gweithgaredd fel hwn. Y cam cyntaf oedd rhoi i bawb y cyfle i gofrestru. Cafodd pum ymgeisydd eu dewis i gynrychioli pump o'r prif bleidiau. Wedyn, ar y dydd Gwener cyn yr etholiad roedd amser egwyl yn y Neuadd yn wahanol i'r arfer, a chawsom dipyn o hwyl wrth i'r ymgeiswyr gael eu cyflwyno i'r

Y Prifathro gyda'r pum ymgeisydd

etholaeth. Cafwyd ymgyrch posteri. Ar y dydd Llun, digwyddodd yr "hustings" a phob plaid yn annerch y dorf. Mae'n rhaid dweud fod y Rhyddfrydwyr wedi dangos eu bod nhw'n adnabod yr etholaeth yn dda. Tra bod y negeseuon trwm, difrifol yn dod o'r pleidiau eraill, llwyfan y Rhyddfrydwyr oedd "Dileu gwisg ysgol".

Cafodd y polisi yma ei gyhoeddi tra oedd cefnogwyr yr ymgeisydd yn taflu losin at y dorf. Talodd y strategaeth yma ar ei chanfed, ac amser cofrestru pnawn daeth yr ysgol ynghyd wrth y Bloc Mathemateg i glywed y canlyniad. Cafodd pawb a oedd wedi cymryd rhan dipyn o hwyl a sbri. Roedd yr olygfa wrth y blychau pleidleisio ar y dydd Mercher yn werth ei gweld, gyda'r chweched yn arwain y blaen fel swyddogion etholiadol. Tipyn o sbort felly, ond ar yr un pryd cafodd y broses ddemocrataidd ei chyflwyno'n fyw iawn i'r ysgol i gyd.

Menter yr Ifanc – Cyfoeth Cymru
Erbyn hyn mae'r Cwmni wedi'i sefydlu ac yn mynd o nerth i nerth! Mae'r ysgol wedi profi llwyddiant yng nghystadlaethau Menter yr Ifanc. Eleni dewisodd y myfyrwyr yr enw "Cyfoeth Cymru", enw sy'n adlewyrchu natur eu cynnyrch sef Cyfeiriadur ar ffurf CD yn hybu gwerthiant cynhyrchion a bwydydd Cymreig. Ym mis Chwefror enillodd y cwmni'r cyfle i gyflwyno eu cynnyrch mewn ffair allforio i banel o feirniaid o fyd busnes yn Llandrindod, a chafwyd canmoliaeth am eu cyflwyniad, yn ogystal am eu syniadau gwreiddiol a gwefreiddiol.

Ar Ebrill 27, llwyddodd y cwmni i ennill y fraint o fod yn un o ddwy ysgol i gynrychioli Rhondda Tâf yn y gystadleuaeth ranbarthol.

Yn ystod y Nadolig wedi marchnata a gwerthu Cracers – y fenter yn llwyddiant.

Dathlwyd Dydd Santes Dwynwen – Marchnatwyd a gwerthwyd llwyau siocled ynghyd a negeseuon serch i ddisgyblion – llwyddiant ysgubol.

Diwedd mis Ionawr bu'r Cwmni yn cystadlu mewn cystadleuaeth allforio cynnyrch – gallai llwyddiant olygu mynd i un o wledydd Ewrop i gystadlu mewn Ffair Arwerthiant Rhyngwladol.

Chwefror 25, cafwyd hyfforddiant gan Reolwyr y Cwmni ar elfennau cyllid, llunio adroddiad cwmni a chyflwyniad a marchnata'r cynnyrch (wedi'i drefnu gan Menter yr Ifanc Cymru).

Os ydych â diddordeb mewn prynu copi o'r CD gallwch gysylltu ag Eleri Evans (Prif weithredwr y cwmni yn yr Ysgol) neu ar wefan y cwmni. Y cyfeiriad yw
www.Freewebs.co.uk/cyfoethcymru.

Eisteddfod yr Urdd
Canolfan y Mileniwm Caerdydd 2005
Cafodd yr ysgol wythnos arbennig o lwyddiannus eleni eto ac roedd yn wych i gymaint o'r disgyblion gael y profiad gwefreiddiol o berfformio ar un o lwyfannau gorau'r byd yng Nghanolfan y Mileniwm. Cafwyd llwyddiant mewn pedair cystadleuaeth llwyfan.
Cyntaf yn y cyflwyniad llafar 12-15 oed
Ail yn y gân actol 12-15oed
Cyntaf yn y côr meibion dan 19 oed
Trydydd yn y parti llefaru 15-19 oed
Rhaid hefyd llongyfarch dau o gyn disgyblion Rhydfelen ar eu llwyddiant yn y prif seremonïau, sef Catrin Dafydd a enillodd y Fedal Lenyddiaeth, ac Aneirin Karadog enillydd y Gadair.

Les Miserables
Cafodd nifer o'r disgyblion y profiad anhygoel o berfformio yn y sioe gerdd Les Miserables ar y nos Fawrth a'r nos Fercher, nosweithiau gwych a gwefreiddiol. Llongyfarchiadau iddynt i gyd ac i Mr. Peter Davies a'i dîm cynhyrchu. Edrychwn ymlaen at ddychwelyd i'r ganolfan ymhen pedair blynedd!

Tîm Cyfoeth Cymru

Taith Cyfnewid i Lydaw

Disgyblion o Ysgol Gyfun Rhydfelen ac Ysgol Gyfun Ystalyfera yn mwynhau'r ymweliad i Lydaw

Codi'n gynnar fore Sadwrn? Ych a fi! Ond dyna wnaeth 14 o ddisgyblion Rhydfelen ac 11 o blant Ysgol Gyfun Ystalyfera ar y pedwerydd o Fehefin, a hynny heb gwyno gormod hefyd. Roeddent ar y ffordd i Lydaw i dreulio wythnos gyda disgyblion ysgol yn Lesneven, Llydaw.

Bant â ni, a diolch byth doedd neb wedi chwydu ar y bws, ond roedd sawl un yn edrych braidd yn wyrdd ar y fferi, a pheth da oedd cyrraedd tir cadarn am ddeg o'r gloch y nos.

Bore Sul, ac amser i gwrdd â phawb o fy nheulu newydd. Crwydro o gwmpas y fferm, dweud helo wrth yr anifeiliaid , cael gwledd o fwyd blasus a mwynhau blas ar fywyd yn Ffrainc

Dydd Llun, doedd dim amser i wastraffu. Am 8.30 y bore cwrddon ni yn ysgol "College Lycee St. Francois" lle'r oedd bws yn pigo ni i fyny a mynd a ni i dref Brest, lle wnaethom ymweld â'r amgueddfa bywyd môr, "Oceanopolis". Roedd y lle'n wych! Gwelsom bob math o greaduriaid rhyfedd a hynod, gan gynnwys nifer o bengwiniaid, siarcod a morloi.

Roedd dydd Mawrth yr un mor brysur. Yn y bore buon ni'n mynychu gwersi yn yr ysgol, yna ymweld â'r gegin grempog, "la creperie", lle gwelsom sut mae crempogau Ffrengig yn cael eu creu. Yn y prynhawn, buom yn cymryd rhan mewn twrnament pêl fasged yn y gwersi chwaraeon.

Pan gyrhaeddodd dydd Mercher roedd yr arian yn llosgi yn ein pocedi, felly bant â ni i'r dref fawr agosaf, Quimper. Dyna le prydferth! Siopau a thai traddodiadol a strydoedd cul hanesyddol.. gwelon du mewn a thu allan i'r eglwys gadeiriol "Cathedrale St. Corentin", yna cawsom awr neu ddwy i grwydro'r dref a thwrio drwy nifer fawr o stondinau oedd ar gael yno.

Treulion ni'r rhan fwyaf o ddydd Iau yn crwydro'r stondinau ym marchnad Lannion. Yna aethom ni i bentref bach o'r enw Locronan sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn golygfeydd sawl ffilm.

Dydd Gwener, ymweld â pharc hamdden fach "Les Trois Cures" ac i lawer o'r disgyblion, dyna oedd rhan orau'r holl daith. Yn y prynhawn aethon ni i ardal o'r enw Saint-Miguel gyda'i oleudy a thŵr hynafol.

Dydd Sadwrn, ac roedd hi'n amser i ddychwelyd yn ôl i Gymru. Felly yn ôl â ni ar y fferi am chwe awr, yna taith weddol hir ar y bws ac o'r diwedd roedden ni gartref.

Hoffwn ddiolch yn fawr i'n athrawes Ffrangeg, Miss Gwenllian Rees am drefnu'r daith ac i Mr Wyn Thomas a ddaeth i'n gwarchod, hefyd i Miss Hopley, MissWilliams a'r disgyblion o Ysgol Gyfun Ystalyfera fu'n gwmni yn ystod yr wythnos.

Carys Johnson 9R

Siaradwyr Cymraeg yn mwynhau eu rhyddid.

Croeso nôl i golofn Potentia Menter a Busnes, y prosiect sy'n helpu siaradwyr Cymraeg i ddechrau eu busnes eu hunain.

Ers lansio ymgyrch 'Rhyddid Rhedeg Busnes dy hun' ar Pobol y Cwm, ac ers cyfrannu i'r papur hwn fis yn ôl, mae nifer o siaradwyr Cymraeg wedi dod i gysylltiad ac eisiau mynd ati i sefydlu busnesau eu hunain.

Meddai Branwen Daniel, Rheolydd y prosiect; 'Er bod yr ymgyrch yn un eithaf mentrus o ran delwedd, da ni wedi cael ymateb hynod o bositif ar y cyfan, gyda chynnydd amlwg yn y nifer o bobl sydd wedi eu hysbrydoli i gychwyn busnes.'

'Oherwydd natur anghonfensiynol y nawdd, mi roedd hi'n bwysig iawn bo ni'n cyfleu neges yr ymgyrch yn glir ac yn ofalus, sef y rhyddid sydd gan rywun i ddewis pryd, lle, a faint mae nhw am weithio pan maen nhw'n fos ar fusnes eu hunain. Fel prosiect sy'n annog pobol i fentro, dwi'n falch o ddeud bod y risg da ni wedi i gymryd efo'r ymgyrch yma wedi gweithio, sydd eto'n profi gwerth a phwysigrwydd mentro a rhoi cynnig ar syniadau newydd.'

Felly, os ydych chi yn ysu i fentro ac eisiau trafod y posibiliadau, cofiwch fod cymorth ar gael i'ch helpu o'r camau cyntaf un; o ystyried a ydi busnes yn addas i chi, i ddatblygu eich syniad a'i sefydlu. Cysylltwch gyda ni felly ar 01248 672 610 - ryden ni yma i'ch helpu.

Branwen Daniel, Rheolydd Potentia Menter a Busnes.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

PWYLLGOR YMCHWIL CANCR

Mae pwyllgor lleol Ymchwil Cancr wedi bod yn brysur yn codi elw tuag at gronfa'r ymchwil. Yn ystod yr wythnosau diwethaf maent wedi cynnal Bore Coffi yn neuadd Eglwys Dewi Sant , a thrwy haelioni swyddogion yr Eglwys cafwyd defnydd o'r neuadd yn rhad ac am ddim. Mae'r pwyllgor yn gwerthfawrogi ag yn diolch yn fawr iawn iddynt.

Mae'r pwyllgor yn cwrdd yng Nghlwb Rygbi Tonyrefail, ag yn gwerthfawrogi haelioni'r clwb am fenthyg ystafell yn rhad ag am ddim. Diolch I Mr Wayne Barnfield a'i gyd aelodai am ei haelioni.

Fel rwyf wedi crybwyll o'r blaen mae'r pwyllgor wedi gweithio'n galed i godi elw ir gorchwyl haeddiannol hyn ers ei sefydlu, maent wedi codi yn tynnu tuag at y can mil o bunnoedd swm sylweddol. Pob bendith ar ei hymdrech i goncro'r clefyd erchyll.

PENBLWYDD

Mae chwaer Miss Nansi Lewis Heol Y Felin sef Mrs Bessy Teclham sydd yn byw ym Mhorthcawl yn cael ei phenblwydd yn Gant oed yn ystod yr wythnosau nesaf, mae Miss Lewis hefyd yn ei nawdegau ac yn dal yn sionc ei throed. Ffyddloniaid Ainon y Bedyddwyr oeddent cyn i'r achos ddirwyn i ben.

YN YR ARDD FOTANEG

Ar ddydd Sadwrn yr 11eg o Fehefin roedd cynrychiolaeth o ddawnswyr gwerin o bob cwr o Gymru wedi ymgynnull i rannu eu sgiliau â'r cyhoedd ac roedd yn hyfryd i weld lliwiau y gwisgoedd traddodiadol.

Cawsom gyfle hefyd i weld ychydig o'r gerddi ag yn enwedig o dan y tŷ gwydr mawr a sylwi ar wahanol blanhigion o bob cwr o'r byd.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae'r wraig a minnau wedi bod yn carafanio ag yn aros ar fferm

Ysgol Gymraeg Tonyrefail

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Eisteddfod yr Urdd

Cafodd tri o ddisgyblion yr ysgol lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, Bae Caerdydd. Daeth Fflur Elin yn drydydd yn y gystadleuaeth Unawd Telyn dan 12 oed. Roedd Natasha Doyle yn cystadlu yn y Llefaru dan 10 oed a'r Canu dan 10 oed. A daeth Harriet John yn drydydd yn y Llefaru dan 8 oed ac roedd yn cystadlu yn y Canu dan 8 oed.

Karate

Llongyfarchiadau i Morgan Cowdrey - mae'n bencampwr Prydain mewn Karate am ei oedran a'i bwysau.

Cerian Phillips

Mansel Phillips yn arwain y dawnsio

Llwynifan yn Llangennech, felly roeddem yn agos i ymweld â'r Ardd Fotaneg a mwynhau'r ardd a'r Dawnsio Gwerin.

Morgan Cowdrey

Elin, Harriet a Natasha

Dawnsio

Roedd bwrlwm mawr yn Adran y Babanod wrth iddynt gael bore o ddawnsio noddedig ar 22 Mehefin er mwyn codi arian am adnoddau i'r adran. Diolch o galon i Mrs Thomas a Mrs Daye am drefnu'r bore.

Tenis

Aeth Mason Roderick, Thomas McCarthy, Grace Looker ac Ieuan Lewis o Flwyddyn 4 i Barc Ynysangharad i gystadlu mewn cystadleuaeth Tenis Ysgolion Cymraeg. Trefnwyd y dydd gan yr Urdd a City Tennis ac roedd y plant yn gyffrous wrth glywed eu bod wedi dod yn ail. Pob lwc yn Wimbledon.

Athrawon

Pob lwc i Miss Pugh sy'n ein gadael ar ôl cyfnod o gyflenwi ym Mlwyddyn 3. Croeso cynnes i Miss Amy Williams sy'n cymryd ei lle tan ddiwedd y tymor.

Croeso i Mrs Bethan Jenkins sy'n diddori Blwyddyn 6 ar hyn o bryd gyda'i gwersi crefyddol.

YSGOL GYFUN LLANHARI

Chwaraeon

Rhian Thomas.
Mae 2004-2005 wedi bod yn gyfnod prysur i Rhian Thomas o l OF gyda nifer o lwyddiannau yn nofio ac yn rhedeg trawsgwlad. Fe enillodd Rhian gystadleuaeth y Sir o dan 16 ac fe ddaeth hi yn 7fed ym mhencampwriaeth traws gwlad Cymru. Pob lwc iddi yn y tymor athletau eleni.

Rebecca Gatt.
Llongyfarchiadau i Rebecca Gatt o 10H am ddod yn ail yn y naid hir ym mhencampwriaethau Athletau Cymru. Mae Rebecca wedi bod yn cynrychioli Clwb Athletau Penybont a'r sir ers nifer o flynyddoedd bellach ac mae hi'n mynd o nerth i nerth. Da iawn ti Rebecca.

Mia James a Frances Samuel.
Pêl-rwyd
Ers mis Hydref bellach mae Mia a Frances wedi bod yn ymarfer a chynrychioli Sir Cymoedd Morgannwg.

Roedd y ddwy wedi perfformio yn arbennig o dda yn y treialon ac wedi dod i'r brig drwy gael eu dewis i fod yn rhan o'r garfan arbennig hon.

Timau pêl rwyd dan 14 ac 16.
Hoffwn longyfarch merched pêl rwyd o dan 14 ac 16. Mae wedi bod yn bleser hyfforddi y tîm eleni oherwydd eu hymroddiad a dyfalbarhad i wella eu sgiliau (er cwyno am yr holl waith ffitrwydd!)

Oherwydd eu gwaith caled ers blwyddyn 7 a thargedau uchel maent yn gosod, maent wedi profi llwyddiant y tymor yma wrth ennill twrnament pêl-rwyd Taf Elái ac wrth ddod yn ail yng Nghwpan y Sir. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr i'r daith i Dde Affrig. Daliwch ati ferched.

Clare Roberts.

Tìm pêl-rwyd dan 16

Rebecca Gatt

Rhian Thomas

Llwyddiant Athletau
Bu timau athletau bechgyn a merched yr ysgol yn llwyddiannus iawn yng nghystadleuaeth Taf Elái yr wythnos diwethaf. Daeth bob tîm yn gyntaf gyda pherfformiadau eithriadol o dda.

Y gamp nesaf yw rownd y Sir yn Aberdâr ar y 29 Mehefin ac wedyn gobeithio y gystadleuaeth genedlaethol yn Aberhonddu ar Gorffennaf 13.

Mae'r disgyblion i gyd wedi dangos dyfalbarhad wrth iddynt ymarfer eu sgiliau bob amser cinio ac ar ôl ysgol yn gyson. Mae'r athrawon yn yr Adran Gorfforol wrth eu bodd o weld ffrwyth eu llafur gyda'r disgyblion yn cyflawni eu potensial. Mae rhai disgyblion eisoes wedi cynrychioli y Sir a dymunwn bob llwyddiant iddynt.

Eisteddfod yr Urdd Caerdydd.

Fe fu llawer iawn o'n disgyblion ni yn brysur dros ben yn ystod y gwyliau hanner tymor. Roedd tuag wythdeg ohonynt yn cystadlu ar wahanol bethau yn yr Eisteddfod i lawr ym mae Caerdydd. Cafodd pump o'n cystadlaethau ni gyfle i ymddangos ar y llwyfan ac fe ddaeth pedwar ohonynt yn ail yn eu cystadleuaeth sef Detholiad Llafar o dan 15 a dros 15, cyflwyniad o ddarn o sioe gerdd ac Aneurin Barnard yn canu cân o sioe gerdd. Daeth ein ensemble dros 15 ni yn drydydd yn eu cystadleuaeth.
Cawsom nifer fawr o ymwelwyr i babell yr ysgol ar y safle hefyd a braf iawn oedd gweld a siarad gyda chyn-ddisgyblion ac athrawon o'r ysgol.

Elin Phillips Blwyddyn 12.
Mae Elin Phillips wedi cael llwyddiant un yr Eisteddfod ddiweddar Daeth hi yn drydydd drwy Gymru o dan 25 ar y gystadleuaeth ysgrifennu Drama fer. Mae hi hefyd wedi cael ei dewis i fod yn un o gast Cwmni Drama Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Mae hwn yn fraint gan ei fod yn anodd iawn cael lle ar y cwrs haf yma.

Y Tîm arlwyo - Gregory Whitehaead, Aled Jones, Adam Edwards, Yvonne Herbert, Emma Young, Gareth rees, Rhiannon Prsons, Menna Greenslade a Mrs Siwan Hill.

Yr athrawon yn mwynhau eu bwyd

Arholiad Bwffe i'r Staff Grŵp Arlwyo Bl. 10

Mae'n draddodiad erbyn hyn i ddisgyblion y dosbarth Arlwyo ym mlwyddyn 10 i goginio a gweini pryd o fwyd i'r athrawon yn ystod tymor yr haf. Eleni fe ddigwyddodd hyn ar 16 ac 17 o Fehefin ac fe gafodd pawb wledd o fwyd gan y disgyblion a gweini parchus hefyd. Roedd rhai o'r disgyblion wedi mwynhau cymaint eu bod wedi gwneud hyn ddwy waith.

Yr Adran Gerddoriaeth

Llongyfarchiadau i Michelle Wilkes ar ei llwyddiannau arholiadau Gradd 8 piano a Gradd 8 Anrhydedd Telyn. Hefyd i Nathan Trevett ar ei lwyddiannau ef, arholiadau Gradd 8 piano a Gradd 8 Anrhydedd gitâr.

Llongyfarchiadau i Catrin Richardson, Bethan Jones a Rhiannon Foster-Davies ar eu perfformiad yng nghystadleuaeth Ensemble 12 - 15 oed, Eisteddfod yr Urdd eleni. Llongyfarchiadau hefyd i Lowri Morgan, Mair Roberts a Elin Phillips am eu perfformiad hwy yng nghystadleuaeth Ensemble 15 - 25 oed. Sonata yn F fwyaf gan Handel i ddwy ffliwt a thelyn oedd eu darn - ac fe gawsant y 3ydd wobr - roedd deuddeg grwp wedi perfformio yn y rhagbrawf, felly roeddent yn hapus iawn o gael y cyfle i berfformio ar lwyfan Theatr Donald Gordon yng Nghanolfan y Mileniwm.

Llongyfarchiadau hefyd i Angharad Edwards a Lowri Morgan – mae'r ddwy wedi eu derbyn i ganu'r delyn gyda Cherddorfa y Bedair Sir ar gwrs yn Ogwr eleni. Bydd Lowri Morgan yn brysur iawn dros y gwyliau – mae hi wedi llwyddo i gael lle fel telynores gyda Cherddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru am yr eil dro cyn dechrau ar gwrs ym mis Medi gyda'r telynor Ieuan Jones yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain. Dymuniadau gorau i ti, Lowri.

Llongyfarchiadau hefyd i Laura Thomas ac Angharad Edwards, y ddwy wedi canu'r delyn mewn priodasau y tymor yma.

Llongyfarchiadau yn olaf i Mair Roberts ar ei pherfformiad yn y gystadleuaeth unawd chwythbrennau 15 – 19 yn Eisteddfod yr Urdd.

Gweithdy Cerddoriaeth

Ym mis Mehefin cymerodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 9 sy'n cymryd cerddoriaeth blwyddyn nesaf rhan mewn gweithdy cerddoriaeth. Dysgon ni sut i chwarae cerddoriaeth nid o gopi ond wrth glust. Roedd y gweithdy ar dri phrynhawn.

Daeth dau gerddor o gymdeithas TRAC i'r ysgol, Huw Williams a Jonathan. Roedd y ddau yn gyfeillgar ac roeddynt gyda ni trwy'r tri diwrnod yn helpu gwella ein sgiliau cerddorol.

Dysgon nhw ni sut i chwarae cân gwerin gan ddefnyddio ein clust. Roedd yn anodd ac yn hwyl ar yr un pryd. Gwahanon ni i ddau grŵp a dysgu'r darn er ein hofferynnau, un gyda'r diwn a'r llall yn dysgu rhythm. Ymunon ni gyda'n gilydd a chwarae. Roeddwn wedi mwynhau.

Ar yr ail ddiwrnod daeth Heather Jones, cantores enwog o Gymru a dysgon ni'r gân 'Ym Mhontypridd Mae Nghariad'. Cyfeilion ni gyda'n hofferynnau gydag eraill yn canu. Defnyddion ni offerynnau rhythm, gitârs, llinynnol a chwythbren.

Ar y trydydd diwrnod gwerthuson ni ein gwaith ac wedyn cyfeilion ni gân mewn grwpiau a'i pherfformio o flaen y disgyblion eraill.

Roedd yn brofiad gwych a gwnaeth pawb fwynhau

Eleri Tudor.

TI A FI BEDDAU
Bob Bore Mercher
10.00 - 11.30a.m.
yn Festri Capel Castellau, Beddau

TI A FI TONTEG
Bob Dydd Mawrth
10 - 11.30
yn Festri Capel Salem, Tonteg

TI A FI CREIGIAU
Bore Gwener 10 - 11.30am
Neuadd y Sgowtiaid,
Y Terrace, Creigiau
Manylion: 029 20890009

CYLCH MEITHRIN CILFYNYDD
Bore Llun, Mercher a Iau
9.30-11.30
TI A FI CILFYNYDD
Dydd Gwener
9.30-11.30
Neuadd Y Gymuned,
Stryd Howell,Cilfynydd.
Manylion: Ann 07811 791597

CROESAIR COL



Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau.

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn,
Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 25 Gorffennaf 2005

Ar Draws

6 a 8 ar draws ac 19 i lawr. 'Myn yr wy yn fynych fod yn glyfrach na'r iar neu esiampl arall o'r ieuanc di-brofiad yn rhoi cyfarwyddyd i'r hen profiadol (2,3,2,5,2,5,4)

8. Gweler 6
9. Mae'r gof yn holi (5)
10. Yn ôl pob sôn, llathen ydy maint y buarth (4)
12. Mae'r lle sy'n gwneud y calch yn od (4)
14. Mae dafad fach yn gofidio ynghylch 3.142 (Neu 22/7 i'r hen ffasiwn) (5)
15. Gwêl yn Eluned berson unigol (4)
16. Mae gair brawychus i'r anifail anwes yn codi'r bo (4)
18. Dywedwch yn Saesneg 'Fi yw Bill' ac fe gewch offeryn tyllu (5)
20. Rhywle yng Nghaerdydd o flaen y gwŷdd (7)
21. Yn groes yn ôl rheol yn fet-amorffig fel petai. (12)

I Lawr

1. Troi'r grudd erch o wneud godineb (8)
2. Colli un yn yr hafan, drysu a chael dolur (4)
3. Chwyth yn y banadl (5)
4. Heb orffen codi ysgol am ei bod yn tywyllu (7)
5. Braidd yn ofnog yn y twll dan y ddaear (4)
6. Lleferydd Plant Alis (2,4,4)
7. Awn i'r oedfa gyda hanner cant ond gollwng un yn ddi-feddwl (10)
11. Nodi'r amcan mewn pennod (3)
12. Eithr Don yn unig. Onid e? (3)
13. Iwan, mi, o'n co' oherwydd llid yr ysgyfaint (8)
14. Dewch â'r copa i'r Gwaelod yn y bing (7)
17. Colli cant mewn canrif - y sarhad (6)
19. Gweler 6 ar draws
20. Swnllyd iawn, iawn yn y cae a hefyd y tŷ bwyta (4).

ATEBION MIS MEHEFIN

		T	R	I	A	R	DD	E	G	A	R	
D		E		O		O		B		R		A
A	L	M	A	N	A	C		A	T	G	A	S
M		E		C		E		R		A		G
N	O	S			A	D	E	G		N	A	W
E		T		D		I		O				R
D	E	L	W	E	DD		A	F	A	LL	E	N
I				N		H		I		U		E
G	Ô	L		I	E	U	O			M	A	I
A		O		A		G		G		A		DD
E	B	W	Y	D		A	M	L	E	N	N	I
TH		R		O		I		U		O		O
	D	I	F	L	A	N	E	D	I	G		

Cefnogwch
Y CYMRO
Papur Cenedlaethol Cymru ers 1932. Ffonwich Edwina 01970 615000 am fanylion tanysgrifio.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

I'R CYHOEDDIAD HWN

www.bwrdd-yr-iaith.org

Triniaethau Teithiol

Tylino Chwaraeon Aromatherapi

Tylino Pen Indiaidd Tylino Swedaidd

Iechyd Da

Danny Grehan ICHT, HFST

ffôn :
07881 607 723

ebost :
danny@iechydda.com

www.iechydda.com

Dysgu Cymraeg? – Gallwch gael cymorth o'r llyfrgell!

Gall Llyfrgelloedd RhCT gynnig nifer o ffyrdd gwahanol i ddysgu Cymraeg hablw am lyfrau.

Os hoffech gael cwrs siarad Cymraeg ar gaset, CD neu video gallwch ei fenthyg o lyfrgell yn Rhondda Cynon Taf.

Defnyddiwch ein mynediad rhad ac am ddim i gyfrifiaduron i ddefnyddio'r geiriadur Cymraeg Cysgair neu defnyddiwch Cysill i gywiro eich gwaith cartref Cymraeg. Rydym hefyd wedi gosod ffontiau Cymraeg i sicrhau yr acenion cywir.

Ar ben hyn i gyd gallwch ymuno ag un o dosbarthiadau Cymraeg yn eich ardal. Mae rhai yn cael eu cynnal mewn llyfrgelloedd. Defnyddiwch ein nofelau Cymraeg fel adnodd darllen i ddatblygu eich sgiliau ieithyddol.

Bydd dosbarthiadau Cymraeg yn cael eu cynnal yn y llyfrgelloedd canlynol:-

Beddau Safon 2 6.00-7.30
dechrau Dydd Llun 19 Medi
Beddau Safon 1 7.30-9.00
dechrau Dydd Llun 19 Medi
Beddau Safon 4 6.00-7.30
dechrau dydd Iau 22 Medi
Beddau Safon 3 7.30-9.00
dechrau dydd Mawrth 20 Medi
Ffynon Taf Safon 1 6.30-8.00
dechrau Dydd Llun 19 Medi
Pontyclun Safon 1 6.30-8.30
dechrau Dydd Mawrth 20 Medi
Rhydyfelin Safon 5 6.30-8.30
dechrau Dydd Llun 19 Medi



CORNEL Y PLANT

Mae Cai wedi colli'r ffordd i'r ysgol. Helpwch e i gyrraedd mewn pryd.





Rhowch enwau'r creaduriaid hyn yn y sgwariau cywir

Lliwiwch y llun a rhowch enw i'r ci